Rhondda Cynon Taf

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2037

Revised Local Development Plan 2022-2037







# Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol





## Mehefin 2022



RHONDDA CYNON TAF

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf 2022-2037

# Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol


| | | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD | 1 |
| 2. | PROSES SAFLE YMGEISIOL Y CDLl | 2 |
| 3. | GALW AM SAFLEOEDD YMGEISIOL A GALW AM EU CYFLWYNO | 5 |
| 4. | CAMAU ASESU SAFLE | 9 |
| 5. | CASGLIAD | 14 |


***Atodiadau***


| | | |
|---|---|---|
| Atodiad 1 | Ffurflen Gyflwyno | 15 |
| Atodiad 2 | Canllawiau ar gyfer Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol | 25 |
| Atodiad 3 | Cam 1 – Asesiad Cychwynnol | 40 |

# 1. CYFLWYNIAD

1.1. Cafodd y Cytundeb Cyflawni (CC) ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 9fed or Fawrth 2022 ac wedyn gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2022. Mae'r CC yn nodi'r amserlen a dulliau Cyfranogiad Cymunedol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLlD) ar gyfer y cyfnod 2022-2037 gyda gwaith paratoi'r CDLlD yn swyddogol yn dechrau ym mis Ebrill 2022. Bydd y CDLlD yn ailystyried pob agwedd ar y CDLl cyfredol, gan gynnwys pob cam paratoi megis y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adnau. Bydd yr holl bolisïau cyfredol hefyd yn cael eu hailystyried ac yn benodol mewn cysylltiad â'r fethodoleg yma. Felly hefyd dyraniadau safle-benodol.

1.2. Yn unol â hynny, un o'r camau allweddol wrth baratoi'r CDLlD, sydd wedi nodi'n gynnar iawn yn amserlen y CC, yw cyflwyno ac yna ystyried Safleoedd Ymgeisiol i gael eu dyrannu'n safle-benodol, a hynny ar gyfer ystod o ddatblygiadau gwahanol.

1.3. Mae'r ddogfen yma'n nodi methodoleg y Cyngor wrth ystyried Safleoedd Ymgeisiol. Yn gyntaf oll, mae'n rhoi cefndir cyffredinol y broses Safle Ymgeisiol mewn perthynas â'r CDLl ac yn nodi camau paratoi cysylltiedig. Yna mae'n amlinellu'r hyn sy'n ofynnol wrth gyflwyno'r safleoedd yma ar gyfer CDLlD RhCT (gan gynnwys tystiolaeth ategol angenrheidiol) cyn nodi manylion camau niferus y broses asesu.

1.4. Mae methodoleg y Safle Ymgeisiol wedi'i pharatoi i sicrhau cydymffurfiad â gofynion deddfwriaethol, y polisi cynllunio cenedlaethol, fel sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11), a hefyd y canllawiau cenedlaethol sydd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), fel sy'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau bod dewis safleoedd addas i'w dyrannu yn seiliedig ar asesiad cadarn, tryloyw a chredadwy o'r tir sydd wedi cael ei gyflwyno.

## 2. PROSES SAFLE YMGEISIOL Y CDLl

2.1. Fel y soniwyd uchod, 'Galw am Safleoedd Ymgeisiol' swyddogol yw'r cam ffurfiol cyntaf yng nghamau paratoi y CDLlD yn dilyn cytuno a chyhoeddi'r CC. Mae'r broses yma'n caniatáu i bob parti gyflwyno unrhyw safleoedd posibl i gael eu hystyried yn rhan o'r cynllun. Yna caiff y rhain eu hasesu a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a yw pob safle'n addas ai peidio.

2.2. Mae Safleoedd Ymgeisiol yn chwarae rhan sylweddol wrth lunio'r CDLlD ac yn y pen draw yn ei lwyddiant. Yn wir, yn y diwedd, fe fydd rhai ohonyn nhw'n ddyraniadau sy'n sylfaenol i ddiwallu'r anghenion sy'n cael eu nodi yn y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys tai, cyflogaeth, manwerthu ac anghenion eraill. Mae'r rhain wedi'u nodi isod yn y rhestr Defnydd o Safleoedd Ymgeisiol.

2.3. **Egwyddor allweddol y broses Safle Ymgeisiol**, yw casglu tystiolaeth addas gan hyrwyddwyr safleoedd i ddangos yn gadarn pa mor gynaliadwy, pa mor hyfyw yn ariannol a pha mor dda byddai safleoedd sydd i'w cynnwys yn y cynllun yn gallu cyflawni. O fynd drwy'r broses, mae Llawlyfr y Cynllun Datblygu yn awgrymu y dylai fod modd ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r safle mewn lleoliad cynaliadwy ac a oes modd ei ryddhau o'i holl gyfyngiadau?
- A oes modd i'r safle gael ei gyflawni? (A ellir datblygu y safle drwy gyfnod y cynllun, neu ei ddatblygu'n sylweddol).
- A yw'r ddatblygiad or safle yn hyfyw yn ariannol?

**Mae modd cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer y dibenion canlynol:**

2.4. Mae modd cynnig Safleoedd Ymgeisiol i gael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol. Mae rhai ohonyn nhw wedi'u nodi isod, ond nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr:

- Tai
- Cyflogaeth
- Manwerthu
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
- Cyfleusterau yn y Gymuned
- Hamdden
- Twristiaeth
- Ynni Adnewyddadwy
- Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored
- Bioamrywiaeth
- Gwastraff
- Mwynau
- Iechyd/Addysg/Gofal Cymdeithasol
- Seilwaith Trafnidiaeth
-

**Pa dir oes mae modd ei gynnwys yn y broses Safle Ymgeisiol?**

2.5. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ba dir y mae modd ei gyflwyno i'r broses. Gall gynnwys yr hyn sydd naill ai'n groes i'r CDLl presennol neu safle sydd ddim wedi'i ddynodi i'w ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd hefyd angen ailasesu'r holl ddyraniadau presennol yn llawn, neu eu hasesu am newid priodol yn y defnydd cyfredol sydd wedi'i benodi iddyn nhw. **Fodd bynnag, dylid nodi'n glir mai dim ond darnau cyfyngedig o dir fydd yn addas i'w dyrannu**, a dylai'r fethodoleg yma roi gwybod i unrhyw ddarpar hyrwyddwr tir a fyddai ei dir yn bodloni'r asesiadau llym angenrheidiol.

2.6. Mae modd i Safleoedd Ymgeisiol gynnwys tir sydd heb ei ddatblygu'n llawn, neu yn ddelfrydol, tir sydd wedi'i ddatblygu ar hyn o bryd, neu sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu. Mae modd i adeiladau sydd wedi cael eu trosi at ddefnydd amgen hefyd gael eu cynnwys yn y broses. Bydd trothwy o ran maint safleoedd yn cael ei nodi ymhellach isod.

2.7. Mae modd categoreiddio tarddiad y safleoedd hynny a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses asesu yn bedwar prif fath (er eto, nid yw hyn yn gynhwysfawr):

<u>Safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan dirfeddianwyr preifat ac asiantaethau allanol</u>

2.8. Mae hyn yn cynnwys safleoedd gafodd eu cyflwyno gan dirfeddianwyr preifat, eu hasiantau, datblygwyr cyhoeddus a phreifat.

<u>Safleoedd Adolygu Tir Rhondda Cynon Taf (tir sy'n eiddo i'r Cyngor)</u>

2.9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn un o brif dirfeddianwyr yr ardal. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n adolygu tir ac eiddo y mae'n berchen arnyn nhw.

2.10. Sylwch, ar safleoedd lle mae'r Cyngor, ac yn wir asiantaethau'r llywodraeth neu gyhoeddus eraill, yn hyrwyddwyr safleoedd, rhaid i unrhyw safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo ddangos bod modd iddyn nhw gyflawni trwy eu cynnwys mewn strategaeth waredu. Bydd pob hyrwyddwr tir yn cael ei drin yn gyfartal yn y broses yma.

<u>Dyraniadau CDLl sydd eisoes yn bodoli ac sydd ddim wedi'u datblygu</u>

2.11. Rhan hanfodol o adolygiad CDLl yw'r ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r dyraniadau hynny sydd yn y cynllun presennol ac sydd ddim wedi cael eu datblygu eto. Bydd yr holl ddyraniadau preswyl, cyflogaeth neu fasnachol eraill sydd ddim wedi'u datblygu yn cael eu hailasesu i weld a oes modd eu trosglwyddo i'r CDLl.

2.12. Does dim modd i safleoedd sydd wedi eu dewis yn y CDLl cyfredol gael eu trosglwyddo yn awtomatig. Bydd angen tystiolaeth bod modd i'r safleoedd yma

gael eu cyflawni. Os does dim modd iddyn nhw gael eu cyflawni, fydd y safleoedd yma ddim yn parhau i fod yn safleoedd sydd wedi eu dewis. Efallai y bydd defnyddiau mwy priodol ar eu cyfer ac fe fydd newid yn y dyraniad yn unol â hynny.

2.13. Os oes llai o sicrwydd ynghylch eu gallu i gyflawni, ac felly dyw dyraniad penodol ddim yn briodol, caiff safleoedd o'r fath eu dynodi ar gyfer rôl 'Adfywio', e.e. safleoedd tir llwyd sy'n rhy gyfyngedig i ddarparu datblygiad hyfyw neu ddefnydd cyhoeddus arall, er eu bod nhw mewn lleoliadau priodol ar gyfer datblygiad. Efallai y bydd angen cyllid er mwyn sicrhau bod safleoedd o'r fath ar gael.

<u>Safleoedd sydd wedi'u nodi gan y Cyngor</u>

2.14. Bydd y Cyngor yn weithredol wrth gynnal ystod o astudiaethau i nodi tir ac adeiladau addas ar draws y Fwrdeistref Sirol i'w hystyried ymhellach trwy'r broses Safle Ymgeisiol. Bydd hyn yn cynnwys Astudiaeth Cynhwysedd Trefol trosfwaol â gofynion penodol. Gallai hyn fod yn nodi cyfleoedd yng nghanol trefi, tir yn agos atyn nhw neu nodau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n esblygu; neu safleoedd eraill sydd â pherthynas dda â'n hardaloedd trefol.

**Camau'r CDLlD**

2.15. Mae manylion pellach am y broses asesu wedi'u hamlinellu'n nes ymlaen yn y fethodoleg. Fodd bynnag, mae'r broses Safle Ymgeisiol o fewn camau'r CDLlD yn dechrau gyda'r Galw am Safleoedd Ymgeisiol. Bydd y galw ar gyfer cyflwyniadau yn agor o fis Mehefin 2022 hyd nes diwedd mis Medi 2022. Yn dilyn asesiad cychwynnol, byddai'r arwydd cyntaf swyddogol i ddangos a oes cyfyngiadau sylfaenol i addasrwydd safle i gael ei dyrannu yn digwydd yn ystod y cam Strategaeth a Ffefrir. Yna fyddai'r Cyngor ddim yn pennu addasrwydd y safle i'w ddyrannu nes derbyn cynllun adnau dilynol y CDLlD. Fyddai'r dyraniad terfynol ddim yn cael ei weithredu nes bod yr Archwiliad Cyhoeddus wedi'i gynnal a'r CDLlD wedi'i fabwysiadu. Mae amlinelliad byr o amserlen y CDLlD isod;

| Cam Allweddol | Amserlen |
|---|---|
| **Pendant** | |
| Dechrau gwaith paratoi cyn-adneuo | Ebrill 2022 |
| Galw am Safleoedd Ymgeisiol | Mehefin 2022 |
| Ymgynghoriad (Cyn-adneuo) Strategaeth a Ffefrir | Mehefin/Gorffennaf 2023 |
| Ymgynghoriad Adneuo y CDLl Diwygiedig | Gorffennaf/Awst 2024 |
| **Mynegol** | |
| Cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig i Lywodraeth Cymru | Medi 2024 |
| Archwiliad Annibynnol | Ebrill/Mai 2025 |
| Mabwysiadu | Hydref 2025 |

## 3. GALW AM SAFLEOEDD YMGEISIOL A GALW AM EU CYFLWYNO

3.1. Mae'r Cyngor yn dymuno ymgysylltu â hyrwyddwyr Safle Ymgeisiol mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol a thryloyw, a bydd yn ymdrechu i ymgymryd â'r broses Safle Ymgeisiol yn yr un modd, â llwybr gwybodaeth clir a thystiolaeth i ddangos cynnydd safle trwy gydol y broses. Mae'r Cyngor yn gofyn i'r hyrwyddwyr safleoedd wneud yr un peth er mwyn bod y cydweithrediad rhwng partïon ar ei fwyaf effeithiol.

3.2. Mae'r Cyngor yn dymuno caniatáu cymaint o amser â phosibl ar gyfer cyflwyno safleoedd i'r broses Safle Ymgeisiol, yn enwedig wrth ddwyn i gof yr wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi cyflwyniad safle. Felly, er bod y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn awgrymu cyfnod o 6 wythnos, **bydd y Galw am Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer CDLl diwygiedig RhCT ar agor am gyfnod estynedig rhwng diwedd Mehefin 2022 hyd at y 30fed of Fedi 2022**

### Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol

3.3. Mae'r Cyngor wedi paratoi Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol safonol a ddylai fod yn sail i unrhyw gais ffurfiol i gyflwyno Safle Ymgeisiol i broses baratoi'r CDLlD Mae'r ffurflen yn gofyn am ystod o wybodaeth fanwl am y safle, ac mae wedi'i chynnwys yn atodiad i'r papur yma. **Byddai methu â chyflwyno ffurflen wedi'i chwblhau'n addas yn golygu na fydd y Safle Ymgeisiol, o bosibl, yn cael ei gofrestru.**

3.4. Mae disgwyl i'r ffurflen gael ei chwblhau mor llawn ac mor gywir â phosibl, neu fel arall byddai'r Cyngor yn gofyn am wybodaeth bellach, neu'n llunio barn ar yr wybodaeth ofynnol. Yn wir, bydd cywirdeb pob cyflwyniad yn cael ei wirio, yn ôl yr angen, yn erbyn yr ystod o ddata cynhwysfawr sydd ar gael i ni.

3.5. Byddai'r Cyngor yn annog pob parti i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol ac adroddiadau a gwybodaeth ychwanegol trwy e-bost/ar-lein. Mae modd trefnu i ffurflenni papur gael eu darparu fodd bynnag ac fe fyddwn ni'n derbyn cyflwyniadau trwy'r post. Mae nodyn canllaw wedi'i baratoi ar gyfer y Ffurflen Gyflwyno a'r cwestiynau sydd ynddi. Bydd y Garfan Cynllunio Polisi hefyd yn hapus i ateb unrhyw ymholiadau sydd gyda chi am y broses. Mae'r manylion cyswllt wedi'u cynnwys ar ddiwedd y ddogfen, **gyda'r Ffurflen Gyflwyno wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 a Nodiadau Canllaw'r Ffurflen Gyflwyno yn Atodiad 2**.

### Cyflwyno safle – gwybodaeth bellach

3.6. Er mwyn sicrhau bod y broses o baratoi'r cynllun yn effeithiol, mae'r Cyngor yn mynnu bod cymaint o dystiolaeth â phosibl yn cael ei darparu yn ystod y cam Galw am Safle Ymgeisiol, ochr yn ochr â'r Ffurflen Gyflwyno uchod. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw astudiaethau, adroddiadau a gwybodaeth berthnasol arall i ddangos bod y safle mewn lleoliad cynaliadwy, yn hyfyw a heb gyfyngiadau, a bod modd cyflawni'r safle.

3.7. Mae gofyn i'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r Safle Ymgeisiol fod yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei gynnig, ac yn y pen draw, yn ddigonol i alluogi'r Cyngor i'w asesu (mae hyn yn cael ei alw'n 'blaen-lwytho'). Dylid mesur hyn o'r cynnwys a'r cwestiynau yn y Ffurflen Gyflwyno a'r Camau Asesu (manylion yn adran nesaf y fethodoleg). Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi'r canlynol;

***Pan fo tystiolaeth annigonol yn cael ei darparu ymlaen llaw, mae hyn yn arwain at geisio tystiolaeth bellach yn nes ymlaen yn y broses, gan arwain at oedi. Bydd strategaeth a ffefrir fwy manwl nid yn unig yn darparu ymatebion ymgynghori mwy ystyrlon, ond hefyd yn darparu mwy o dystiolaeth i ddylanwadu a llywio'r cynllun adneuo. Mae blaen-lwytho'r dystiolaeth yn hanfodol i'r dull yma. Mae modd i lefel annigonol o wybodaeth i brofi cyflawniad fod yn rheswm dros ddiystyru safleoedd.***

3.8. Serch hynny, mae hi wrth gwrs yn bosibl na fydd yr holl wybodaeth, neu wybodaeth ar lefel derfynol briodol o fanylion gofynnol, ar gael, na chwaith yn ymarferol yn ariannol yn ystod y cam cyflwyno cychwynnol. Mae'r Cyngor yn cydnabod efallai na fydd elfennau o ddichonoldeb safle bob amser yn bendant nes bod gwybodaeth fwy manwl ar gael ynglyn â chyfyngiadau a gallu'r safle i gyflawni. Mae'r Camau Asesu isod hefyd yn nodi y bydd ein hasesiadau terfynol o'r safleoedd, gan gynnwys asesiadau dichonoldeb manwl, yn cael eu gwneud ar ôl camau ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir.

3.9. Os dyw'r wybodaeth ddim yn cael ei chyflwyno yn ystod y cam Galw am Safle Ymgeisiol, bydd y Cyngor yn gofyn am yr wybodaeth yma os a phan fydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol, (mae modd i hyn fod ar unrhyw adeg o'r cyflwyniad cychwynnol hyd at baratoi Adnau'r CDLlD). **Mae unrhyw fuddsoddiad mewn hyrwyddo safle yn nwylo'r hyrwyddwr**. Pan fydd gwybodaeth am allu'r safle i gyflawni, gwybodaeth am ddichonoldeb y safle a'r holl wybodaeth arall y mae gofyn amdani ddim yn cael eu darparu, efallai na fydd gan y Cyngor ddigon o dystiolaeth, ac felly efallai na fydd yn gallu penderfynu a yw'r safle'n addas ar gyfer dyraniad.

## Cynllun cyfyngiadau a chyfeirio

3.10. Er mwyn cefnogi pob hyrwyddwr ymhellach mae'r Cyngor wedi paratoi cynllun cyfyngiadau i helpu i nodi'r cyfyngiadau sydd ar eich safleoedd. Dyw'r cynllun cyfyngiadau ddim o reidrwydd yn cynnwys pob cyfyngiad neu ddynodiad. Pan mae'r rhain yn cael eu mynegi'n well mewn mannau eraill (megis gwybodaeth sy'n cael ei pharatoi a'i chadw gan gyrff eraill ac a fydd o bosibl yn newid trwy gydol y broses paratoi cynllun e.e. perygl llifogydd), bydd y Cyngor wedi rhoi gwybod ar sut i ddod o hyd i'r wybodaeth yma yn Nodyn Canllaw y Ffurflen Gyflwyno.

## Pryd mae modd cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol

3.11. Y cam Galw am Safleoedd Ymgeisiol yw'r amser mwyaf priodol i gyflwyno safle yn ffurfiol, a'r holl dystiolaeth gefndirol angenrheidiol, i'w chynnwys o bosibl yn y CDLlD. Yna mae modd i sylwadau i'r Strategaeth a Ffefrir ffurfio cyflwyniadau safleoedd pellach i'w hystyried yn y broses Safle Ymgeisiol. Byddai'r holl gyflwyniadau Safle Ymgeisiol newydd a chynrychiolaethau safle-benodol sy'n cael eu gwneud ar ôl cyfnod ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir yn cael eu hystyried mewn perthynas uniongyrchol â pharagraffau 3.72 i 3.78 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3; oni bai bod Galw am Safleoedd Ymgeisiol swyddogol pellach bryd hynny, er dydyn ni ddim yn rhagweld hyn ar hyn o bryd.

## Categoreiddio Safleoedd a Throthwyon

3.12. Er mwyn sefydlu dull ymarferol o ymdrin â Safleoedd Ymgeisiol, mae Llawlyfr y Cynllun Datblygu yn cynghori bod trothwy maint safle yn cael ei sefydlu. Byddai hyn wedyn yn gosod graddfa ar gyfer cynnwys dyraniadau priodol yn y CDLlD.

3.13. Ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol preswyl yn benodol, y trothwy isaf ar gyfer y safle yw naill ai 10 annedd, neu isafswm maint safle o 0.3ha. Does dim terfyn uchaf.

3.14. Mae croeso i safleoedd llai ymuno â'r broses a byddan nhw'n cael eu cofnodi yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, ond bydd y rhain yn cael eu hystyried mewn ffyrdd gwahanol. Caiff safleoedd llai o'r fath yma sydd ar ymyl allanol ffiniau anheddiad sydd eisoes yn bodoli, unai eu hystyried ymhellach fel diwygiadau priodol i'r Ffin Aneddiadau. O bosibl, fe fydd safleoedd llai o fewn Ffiniau'r Aneddiadau trefol presennol yn cael eu hystyried ymhellach o ran eu haddasrwydd ar gyfer datblygu; ac felly'n rhoi rhyw syniad o nifer yr unedau preswyl y mae modd eu codi ar y safleoedd 'annisgwyl' yma. Gall safleoedd llai o'r fath hefyd ganiatáu i ddatblygu eiddo preswyl 'Hunan-Adeiladu' gael ei gyflwyno. Mae modd i hyn fod yn gasgliad o safleoedd llai mewn ardal neu drosi defnydd sawl adeilad mewn ardal. E.e. byddai modd cyfuno canol trefi i roi syniad o'r raddfa bosibl o dai fydd yno. Caiff safleoedd llai eu hasesu yn erbyn cam 1 yr asesiad, fel y nodir yn adran 4 isod, os cynigir y dylid newid eu defnydd presennol neu eu defnydd tir.

3.15. Oherwydd ystod a math y Safleoedd Ymgeisiol posibl eraill, does dim mesur trothwy isaf ar gyfer defnydd tir Safleoedd Ymgeisiol eraill sy'n cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, y Cyngor yn y pendraw sydd â'r hawl i benderfynu a yw dyraniad yn briodol, neu fel arall, gan ystyried polisi CDLlD yn y dyfodol a pholisi cynllunio cenedlaethol, byddai egwyddor y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol heb iddo gael ei ddyrannu.

## Hysbysiad i dirfeddianwyr a chyhoeddusrwydd

3.16. Bydd gwefan y Cyngor ac yn arbennig tudalennau'r CDLlD, yn cael eu diweddaru â phob proses, arweiniad a chyfle Safle Ymgeisiol sy'n berthnasol

ar gyfer cyfranogiad, gan gynnwys ffurflenni cyflwyno a chysylltiadau yn y Garfan Polisi Cynllunio.

## Derbyn safleoedd a chyfeirnod

3.17. Ar ôl i Safle Ymgeisiol gael ei gyflwyno a'i dderbyn gan y Cyngor ac ar ôl iddo gael ei gwblhau i safon dderbyniol, byddwn yn cyfeirio ato fel un sydd 'wedi'i wneud yn briodol'. Bydd hyrwyddwr y safle yn cael gwybod mai dyma'r sefyllfa (ai peidio) a bydd rhif safle unigryw yn cael ei glustnodi. Bydd modd defnyddio'r cyfeirnod yma wrth gysylltu â'r garfan am y safle. Unwaith eto, er mwyn lleihau'r defnydd o bapur yn ystod y broses, mae hyrwyddwyr safleoedd yn cael eu hannog i ddarparu cyfeiriad e-bost. Fodd bynnag, lle dyw hynny ddim yn bosibl, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi trwy lythyr.

## Safleoedd Ymgeisiol Blaenorol

3.18. Cynhaliwyd Galwad am Safleoedd Ymgeisiol yn 2020/2021 ar gyfer Diwygiad blaenorol o’r CDLl RhCT, a fyddai wedi bod ar gyfer cyfnod y cynllun 2020 - 2030. Daeth y Diwygiad hwnnw i ben yn ffurfiol ym mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, cyflwynwyd llawer o safleoedd a llawer o dystiolaeth yn y cyfnod 'Galw'. Penderfynwyd y gellir cario'r safleoedd hyn ymlaen i'w hystyried yn y CDLl Diwygiedig newydd 2022 - 2037; os mai dyma yw dymuniad y rhai a gyflwynodd y safleoedd o hyd. Hefyd, bydd angen i unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r safleoedd hyn gyd-fynd â chyfnod y cynllun newydd hwn e.e. os oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn flaenorol yn sensitif i amser, yna dylid diweddaru ac ailgyflwyno hyn yn briodol.

## Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol

3.19. Yn dilyn y broses Galw am Safleoedd Ymgeisiol, bydd y Cyngor yn creu Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSY). Bydd y gofrestr yn cynnwys yr holl safleoedd sydd wedi'u cyflwyno a'u derbyn yn rhai sydd wedi'u gwneud yn briodol i'w hystyried ym mhroses asesu'r Safle Ymgeisiol. Gallai’r CSY cael ei gyhoeddi o flaen llaw ir Strategaeth a Ffefrir os yw hyn yn cael ei hystyried yn angenrheidiol gan y cyngor.

3.20. **Dylid pwysleisio bod Safleoedd Ymgeisiol sy'n cael eu derbyn ac sydd wedi'u gwneud yn briodol ddim yn ymrwymiad eu bod yn addas i'w cynnwys yn y cynllun o gwbl.**

# 4. CAMAU ASESU SAFLE

4.1. Mae'n hanfodol bod y tir sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygu yn y CDLlD yn cwrdd ag amcanion a gofynion y cynllun, a'i fod yn addas ar gyfer ei ddatblygu a bod modd ei ddatblygu. Bydd y Cyngor yn cynnal proses asesu safle gan ddefnyddio pedwar cam cynhwysfawr. Bydd y broses yma'n glir, yn wrthrychol ac yn dryloyw, ac yn dangos tystiolaeth o gynnydd y safle drwyddi draw.

4.2. Yn ystod pob cam, mae'r Camau Asesu Safle yn defnyddio meini prawf sy'n caniatáu i'r Cyngor hidlo'r safleoedd hynny sy'n addas i'w datblygu a'r rhai sydd ddim. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion ffisegol a lleoliadol a hefyd egwyddorion ehangach fel Polisi Cenedlaethol gan gynnwys Nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a Deilliannau Gwneud Lle Cynaliadwy Polisi Cynllunio Cymru.

4.3. Bydd y broses statudol o Werthuso Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (GC/AAS) yn cael ei hymgorffori yn y broses asesu a nodi safle, a fydd yn cyd-fynd â gwaith cyffredinol y GC/AAS ar gyfer holl broses paratoi'r CDLlD. Fodd bynnag, yn unol â bwriad y Cyngor, bydd hyn yn cael ei wneud fel Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (GCI) ehangach, gan gynnwys meysydd asesu ehangach, e.e. Asesu Effaith ar Iechyd, y Gymraeg a Chydraddoldeb.

**Cam 1 – Asesiad Cychwynnol o'r safleoedd a'u nodweddion**

4.4. Mae'r Cytundeb Cyflenwi ar gyfer y CDLlD yn nodi amser hirach ar gyfer paratoi'r Strategaeth a Ffefrir na'r amser ar gyfer paratoi Adnau'r CDLlD. Felly, ystyriwyd ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol cael dealltwriaeth ehangach o'r Safleoedd Ymgeisiol cyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Yn hyn o beth, mae rhywfaint o wyro oddi wrth y fethodoleg arfaethedig ar gyfer camau asesu yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru.

4.5. O ganlyniad i hyn, fe fydd yr Asesiad Cychwynnol, sef cam cyntaf y broses, lawer yn fwy cynhwysfawr, gan gymryd i ystyriaeth yr holl faterion sydd wedi'u cyflwyno yn y Ffurflen Gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol ffurfiol. Yn wir, bydd yr asesiad yn cwmpasu'r holl feysydd ac egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn rhai priodol ar gyfer asesiad diweddarach GC/AAS (GCI). Fodd bynnag, bydd y broses Asesu Cychwynnol yn asesiad mwy ymarferol a ffisegol o'r safleoedd. Serch hynny, mae'r asesiad yma'n cynnwys y meini prawf priodol i benderfynu a oes cyfyngiadau datblygu/dyrannu sylfaenol ar safleoedd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i dystiolaeth bellach gael ei chyflwyno ar rai safleoedd yn ôl yr angen ac fel sy'n briodol; a hyn yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLlD.

4.6. **Mae taflen werthuso Asesiad Cychwynnol lawn y safle i'w gweld yn fanwl fel Atodiad C,** fodd bynnag, bydd y daflen werthuso yn cael ei rhannu'n adrannau i gwmpasu'r meysydd canlynol;

| |
|---|
| **Lleoliad a hygyrchedd** – A oes gwasanaethau a chyfleusterau o fewn 400m i'r safle. |
| **Cymeriad a chyd-destun y safle** – Ydy'r safle'n dir llwyd/maes glas? A oes nodweddion topograffig ar y safle a all fod yn rhwystr i ddatblygiad? Beth yw'r berthynas ag anheddau cydnabyddedig? A fyddai datblygiad yn cael effaith ar olygfeydd pwysig? A fyddai yna effaith andwyol bosibl o ddefnyddiau tir cyfagos? Llygriad posib a'r defnydd presennol. |
| **Hygyrchedd a chapasiti priffyrdd** – Ystyried addasrwydd mynediad i gerbydau i'r safle, lleoliad y safle o ran llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus, a hygyrchedd ar droed neu feic i ystod o gyfleusterau yn gymuned. |
| **Tirwedd ac effaith amgylcheddol** – P'un a yw'r safle'n destun dynodiadau Ewropeaidd, Cenedlaethol neu Leol, neu'n effeithio arnyn nhw, megis ond heb fod yn gyfyngedig i; Maes Cadwraeth Arbennig (MCA); Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA); Safleoedd Ramsar, Diddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA); Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC); dynodiadau anstatudol lleol megis Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SBCN); Nodweddion/gwerthoedd tirwedd megis lletemau gwyrdd ac ardaloedd tirwedd strategol, asedau hanesyddol; safleoedd maes glas/tir llwyd; system Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) ac ansawdd aer. |
| **Perygl llifogydd** – Ydy'r safle mewn parth perygl llifogydd? |
| **Ardaloedd diogelu mwynau/lleiniau clustogi** – Os yw'r safle mewn parth diogelu mwynau, pa effaith fyddai ar ardaloedd diogelu a lleiniau clustogi? |
| **Capasiti seilwaith** – A yw'r safle'n elwa o'r seilwaith presennol fel dŵr, draenio, carthffosiaeth, trydan, nwy a chysylltiadau a chapasiti telathrebu. |
| **Y Gallu i Gyflawni ac Addasrwydd –** Yn gyffredinol, a yw'r safle'n edrych fel y byddai modd iddo gael ei ddatblygu go iawn a'i fod yn wirioneddol addas i'w ddatblygu? |
| **Casgliadau Cyffredinol Asesiad Cychwynnol y Safle Ymgeisiol**<br>1) Mae'r safle'n parhau yn y broses<br>2) Mae angen gwybodaeth bellach<br>3) Tynnu'r safle o'r broses |
| **I'w ystyried nid i'w asesu – Hanes cynllunio a chytundebau cyfreithiol –** Caniatâd cyfredol, unrhyw hanes o wrthod, ystyriaethau cyn ymgeisio, cyfamodau. |

4.7. Bydd rhan yma'r broses yn caniatáu i benderfyniadau gael eu llunio ar y safleoedd yn erbyn cyfres o amcanion/cwestiynau sydd wedi'u rhannu i'r meysydd uchod. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch faint o effaith bydd y datblygiad arfaethedig yn ei chael ar bob un o'r rhain. Bydd yr effaith yn cael ei chategoreiddio yn erbyn yr **amcanion/cwestiynau** fel a ganlyn;

- 1. Cadarnhaol
- 2. Mae angen gwybodaeth bellach (gofyn am wybodaeth bellach a dyfarnu)

- 3. Negyddol

4.8. Bydd yr effaith yn cael ei chategoreiddio yn erbyn y meysydd **adran** fel a ganlyn:

- Mae'n ymddangos bod y safle'n cydsynio â'r adran yma
- Mae angen ystyriaeth/gwybodaeth bellach ynghylch elfennau o'r adran yma
- Dyw hi ddim yn ymddangos bod y safle'n cwrdd â nodau'r adran yma

4.9. Mi fydd yna cyfyngiadau sylfaenol yn gysylltiedig a phob adran o'r Asesiad Cychwynnol. Dyma rai cyfyngiadau posibl y byddai'r Asesiad Cychwynnol yn eu nodi. Byddai'r rhain yn diystyru safleoedd o gamau asesu pellach ar gyfer cynnig penodol.

- Safleoedd sy'n llai na'r trothwy ar gyfer y safle i'w ddyrannu (fel sydd wedi'i nodi uchod)
- Safleoedd sy'n cynnwys cyfyngiadau sylfaenol does dim modd eu lliniaru. E.e. safleoedd lle mae datblygiad bregus yn cael ei gynnig mewn parth perygl llifogydd amrhriodol.
- Safleoedd sydd ddim yn gysylltiedig ag unrhyw anheddiad yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLl, nac â lefelau cyfleusterau priodol.

4.10. Bydd fersiwn swyddogol o'r Gofrestr Safle Ymgeisiol yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir yn ystod ei cham ymgynghori. Bydd y gofrestr hefyd yn angen i gynnwys gwybodaeth sylfaenol am bob safle a chanlyniadau cam 1 – Y broses Asesu Cychwynnol. Bydd cytundeb cychwynnol sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cael ei nodi.

4.11. Ar y pwynt yma mae modd cyflwyno sylwadau ar y safleoedd, gan gynnwys eu rôl wrth helpu i gyflawni'r strategaeth, ynghyd â chynnig safleoedd newydd. Hefyd, mae modd cyflwyno sylwadau ar eu hasesiad, ynghyd â thystiolaeth gysylltiedig bellach. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan o gam nesaf y broses fel sy'n briodol.

4.12. Dylai'r holl sylwadau sy'n cael eu gwneud gael eu cefnogi gan resymeg gynllunio a chydymffurfio â fframwaith yr GCI.

## Is-grŵp Gwerthuso Safle CDLlD ac Ymweliadau Safle

4.13. Bydd Is-Grŵp Gwerthuso Safle CDLlD yn cael ei sefydlu'n rhan o broses asesu Safleoedd Ymgeisiol. Yn gyntaf, byddan nhw'n mewnbynnu eu barn yn y cam Asesu Cychwynnol. Bydd yr Is-grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau amrywiol y Cyngor, gan gynnwys adrannau Cefn Gwlad, Priffyrdd, Rheoli Datblygu, Addysg, Eiddo'r Cyngor, Iechyd y Cyhoedd a Rheoli Perygl

Llifogydd. Ymgynghorir ag adrannau arbenigol ychwanegol y Cyngor hefyd yn ôl yr angen. Bydd y swyddogion hyn yn dod â'u harbenigedd i'r broses asesu, gan gynnwys ystyriaeth angenrheidiol o safleoedd unigol.

4.14. Efallai y bydd angen i'r Garfan Polisi Cynllunio, ynghyd ag unrhyw aelod angenrheidiol o'r Is-Grŵp Gwerthuso Safle uchod, gael mynediad i'r safle i asesu ei nodweddion, yn ôl yr angen.

**Cam 2 – Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig**

4.15. Bydd ail gam y broses yn caniatáu i'r Cyngor gynnal asesiad manylach o'r safleoedd sydd wedi bodloni Asesiad Cychwynnol cam un. Bydd yn cynnwys asesiad o'r safleoedd yn erbyn y fframwaith Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (GCI), er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn cyfrannu at gyflawni amcanion cyffredinol y cynllun. Bydd y broses GCI yn pennu a oes gan y safle raddfeydd amrywiol o effeithiau cadarnhaol neu negyddol (neu ddibwys) yng nghyd-destun ei amgylchedd, mewn perthynas â phob un o Amcanion yr GCI. Mae'r GCI yn asesu'r holl opsiynau 'rhesymol' ar gyfer cynnwys safle sy'n cael ei gyflwyno yn y CDLl Diwygiedig. Ar y cychwyn, bydd hyn yn cael ei baratoi gan yr ymgynghorwyr amgylcheddol, LUC. Mae cwmpasu drafft arfaethedig yr GCI yn nodi y bydd y safleoedd yn cael eu hasesu yn erbyn yr Amcanion GCI canlynol;

| Amcanion yr GCI |
|---|
| 1. Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a lleihau'r perygl o lifogydd |
| 2. Darparu swm a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol |
| 3. Hyrwyddo cymunedau bywiog, gyda chyfleoedd i fyw, gweithio a chymdeithasu i bawb |
| 4. Annog ffyrdd iach a diogel o fyw sy'n hyrwyddo lles ac yn gwella lefelau iechyd cyffredinol yn Rhondda Cynon Taf. |
| 5. Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o deithio |
| 6. Hyrwyddo, diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig |
| 7. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg |
| 8. Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd |
| 9. Diogelu a gwella bioamrywiaeth |
| 10. Diogelu ansawdd a maint adnoddau dŵr RhCT |
| 11. Diogelu a gwella ansawdd aer |
| 12. Hyrwyddo'r defnydd effeithlon o dir, priddoedd a mwynau |
| 13. Lleihau gwastraff a hyrwyddo gwastraff rheoli gwastraff mwy cynaliadwy |
| 14. Darparu ar gyfer economi gynaliadwy |
| 15. Darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd am swyddi |

4.16. Bydd hyn yn cyd-fynd â chwmpasu pellach proses GCI y CDLlD ac asesu'r Strategaeth a Ffefrir. Yn unol â hynny, bydd angen i'r safleoedd fod yn unol â'r Strategaeth a Ffefrir.

4.17. Os penderfynir bod safleoedd yn groes i'r GCI, ac yn y pen draw i amcanion y Cynllun a'r Strategaeth a Ffefrir ganddo, caiff safleoedd eu dileu o'r broses asesu ar y cam hyn.

**Cam 3 – Gallu safleoedd hyfyw i gyflawni**

4.18. Bydd cam 3 yr asesiad yma'n penderfynu a oes lefel angenrheidiol o sicrwydd yn gysylltiedig â'r safle er mwyn ei ddyrannu i'w ddatblygu yn Adnau'r ADLlD. Mae llwyddiant y cam yma'n dibynnu'n bennaf ar asesu dichonoldeb cynllun datblygu ar gyfer y defnydd arfaethedig. Cyn y cam yma, mae disgwyl bod hyrwyddwr y safle wedi cyflwyno tystiolaeth o ddichonoldeb er mwyn galluogi'r asesiad i ddigwydd.

4.19. Dylid ei wneud yn glir hyd nes y bydd y polisi wedi cael ei adolygu, (na fydd yn digwydd cyn y Cam Adnau), mai goblygiadau ariannol cynllun datblygu sy'n gysylltiedig ag Ymrwymiadau Cynllunio fydd y rheini yn y polisïau CDLl cyfredol, mabwysiedig a'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Dylai'r broses Ardoll Seilwaith Cymunedol gyfredol sydd ar waith yn RhCT hefyd gael ei hymgorffori mewn unrhyw asesiadau o'r fath.

4.20. At hynny, dylai'r Safonau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDs) gael eu hymgorffori fel sy'n briodol ym mhob cynnig datblygu.

4.21. Mae hefyd yn angenrheidiol yn ystod y cam yma i sicrhau ymhellach fod modd i safleoedd gyflawni mewn cysylltiad â rhesymau eraill sydd yn ymwneud ag arian, e.e. ecoleg neu fynediad. Ar y dechrau, efallai bod cyfyngiadau safle o'r math wedi'u nodi mewn perthynas â Safle Ymgeisiol. Yn ystod y cam yma bydd unrhyw sylwadau neu gyflwyniadau pellach sy'n cael eu cyflwyno sy'n briodol i geisio goresgyn y cyfyngiadau yma hefyd yn cael eu hystyried. Bydd defnydd pellach yn cael ei wneud o'r Is-Grŵp Gwerthuso Safleoedd CDLlD yn ystod y cam yma.

**Cam 4 – Ymgynghori ag Ymgynghorwyr Allweddol (cyn y drafft dyraniad adnau)**

4.22. Bydd safleoedd sy'n symud ymlaen i gam 4 yn destun ymgynghoriad ag ymgynghorwyr statudol perthnasol. Byddai'r rhain yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, darparwyr seilwaith fel (ond heb fod yn gyfyngedig i) Dŵr Cymru, y Bwrdd Iechyd Lleol, y Grid Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Glo, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent, Wales and West Utilities, a Western Power Distribution. Bydd yr ACLl yn gofyn yn garedig i'r cyrff yma asesu'r safleoedd a nodi unrhyw faterion posibl, ac os felly, nodi a oes modd rhoi mesurau lliniaru ar waith i'w goresgyn ai peidio.

## 5. CASGLIAD

5.1. Yn dilyn y camau uchod, y safleoedd mwyaf priodol fydd yn cael eu hystyried ar gyfer dyraniad yn y CDLlD. Fodd bynnag, dylid cydnabod ei bod yn anochel efallai y bydd nifer o Safleoedd Ymgeisiol yn cael eu cyflwyno a allai cyflawni'n dda yn erbyn y meini prawf asesu, ond a fydd yn cael eu hepgor o'r cynllun dim ond oherwydd bod tir mwy priodol ar gael mewn man arall. Mewn achosion o'r fath, bydd rhestr o safleoedd dirprwyol posib hefyd yn cael ei hystyried, os bydd safleoedd eraill yn cael eu tynnu o'r CDLlD ar ôl y Cam Adneuo am ba bynnag reswm angenrheidiol.

# Atodiad 1

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG 2022-2037

## FFURFLEN GYFLWYNO SAFLE YMGEISIOL

Un o gamau cychwynnol y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLlD) yw'r 'Galw am Safleoedd Ymgeisiol'. Mae'r Cyngor nawr yn gwahodd cyflwyniadau ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol i'w hystyried ar gyfer ystod o gynigion datblygu.

Un o egwyddorion allweddol y broses Safle Ymgeisiol yw casglu tystiolaeth addas gan hyrwyddwyr safleoedd i ddangos yn gadarn bod eu safleoedd yn rhydd, neu fod modd eu rhyddhau, o gyfyngiadau; eu bod mewn lleoliadau cynaliadwy; a bod modd iddyn nhw gael eu cyflawni a bod yn ariannol hyfyw i'w dyrannu ar yr un pryd.

Mae'r Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol yma wedi'i pharatoi yn rhan o'r Fethodoleg Safle Ymgeisiol gyffredinol ar gyfer y broses CDLlD. Dylid darllen hwnnw cyn cwblhau'r ffurflen yma a chyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Mae'n nodi'r broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol yn fanwl, yn amlinellu'r hyn y mae disgwyl i chi ei gyflwyno mewn perthynas â'r safle (a phryd), ac yna'n nodi'r holl gamau asesu y bydd safleoedd yn ddarostyngedig iddyn nhw.

Ynghyd â'r Ffurflen Gyflwyno yma, mae Nodyn Canllaw manwl i'w gwblhau. Dylid ei ddarllen yr un pryd â chwblhau'r ffurflen yma.

Llenwch ffurflen ar gyfer pob safle, neu ddefnydd arfaethedig pob safle. Rhaid cynnwys map sylfaen yr Arolwg Ordnans ar raddfa 1:1250 neu 1:2500, a rhaid amlinellu ffin y tir dan sylw yn goch. Amlinellwch yn las yr holl ddarnau eraill o dir cyfagos sydd o fewn yr un berchnogaeth.

| Box For Council Use Only | |
|---|---|
| Site ID | |
| Site Promoter ID | |
| Agent ID (if applicable) | |
| Date Received | |
| Date Input | |

Bydd pob cyflwyniad yn cael ei drin yn unol â rheoliadau GDPR. Sylwch, fodd bynnag, y bydd yr holl ffurflenni a thystiolaeth ychwanegol sy'n cael eu cyflwyno ar gael i'r cyhoedd i'w harchwilio. Rhaid i Ffurflenni Cyflwyno Safle Ymgeisiol sydd wedi'u cwblhau a chynlluniau lleoliad sydd wedi'u cynnwys gael eu cyflwyno ar-lein, eu hanfon drwy e-bost i:

CDLl@rctcbc.gov.uk, neu'u hanfon trwy'r post:

Y Garfan Polisi Cynllunio

Tŷ Sardis

Heol Sardis

Pontypridd

CF37 1DU Ffôn: 01443 281129

**Dyddiad cau cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol: 30fed Medi 2022**

**Cynhaliwyd Galwad am Safleoedd Ymgeisiol yn 2020/2021 ar gyfer Diwygiad blaenorol o'r CDLl RhCT, a fyddai wedi bod ar gyfer cyfnod y cynllun 2020 - 2030. Daeth y Diwygiad hwnnw i ben yn ffurfiol ym mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, cyflwynwyd llawer o safleoedd a llawer o dystiolaeth yn y cyfnod 'Galw'. Penderfynwyd y gellir cario'r safleoedd hyn ymlaen i'w hystyried yn y CDLl Diwygiedig newydd 2022 - 2037; os mai dyma yw dymuniad y rhai a gyflwynodd y safleoedd o hyd. Hefyd, bydd angen i unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r safleoedd hyn gyd-fynd â chyfnod y cynllun newydd hwn e.e. os oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn flaenorol yn sensitif i amser, yna dylid diweddaru ac ailgyflwyno hyn yn briodol.**

Sut hoffech chi dderbyn manylion am ymgynghoriadau/gwybodaeth yn y dyfodol?

Trwy e-bost ☐ Trwy'r post ☐

Nodwch eich dewis iaith: Cymraeg ☐ Saesneg ☐

Fydd gohebu yn Gymraeg ddim yn arwain at oedi.

## MANYLION CYSWLLT

| 1. | Manylion cyswllt | Manylion cyswllt yr asiant (os yw'n berthnasol) |
|---|---|---|
| Teitl | | |
| Enw | | |
| Cwmni (os yw'n berthnasol) | | |
| Cyfeiriad | | |
| Cod post | | |
| Rhif ffôn | | |
| Cyfeiriad e-bost | | |

## MANYLION Y SAFLE

2. Enw'r safle:

3. Cyfeiriad y Safle (gan gynnwys Cyfeirnod Grid OS neu Ddwyreiniadau/Gogleddiadau, ac wedi'i amlinellu'n goch ar Gynllun Arolwg Ordnans sydd wedi'i gynnwys):

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod Grid | |

neu

| | |
|---|---|
| Dwyreiniad | |
| Gogleddiad | |

4. Ardal y Safle (Hectarau):

5. Math o Safle (ticiwch un): Maes Glas ☐ Tir Llwyd ☐ Cymysg ☐

6. Defnydd(au) Cyfredol:

7. Defnydd(au) Arfaethedig:

8. Disgrifiad byr o'r cynnig (e.e. amcangyfrif o nifer yr anheddau, arwynebedd llawr masnachol, MW o ynni adnewyddadwy, ac ati):

## PERCHNOGAETH

| | | ✓ | X |
|---|---|---|---|
| 9. | Ydy hyrwyddwr y safle'n berchen ar y safle cyfan a'r mynediad arfaethedig? | | |
| | Os nad ydy, a yw'r holl dirfeddianwyr eraill yn cefnogi'r cyflwyniad yma? | | |
| 10. | A yw perchennog/perchnogion y tir yn barod i werthu'r tir? | | |
| 11. | A oes cynnydd ystyrlon yng ngwerth y tir, sy'n ddigonol i annog tirfeddiannwr i werthu at y defnydd arfaethedig? | | |
| 12. | Ydy hyrwyddwr y safle'n berchen ar unrhyw dir ychwanegol ger y safle? | | |

Os oes llawer o dirfeddianwyr yn gysylltiedig â'r tir, nodwch a ydyn nhw'n gysylltiedig â rhannau o'r safle neu a oes sawl perchennog yn berchen ar un darn o dir. Byddai Cynlluniau Arolwg Ordnans sy'n nodi hyn yn cael eu croesawu. Dylai'r holl dirfeddianwyr eraill sy'n gysylltiedig â'r safle, sy'n dymuno cael gwybod yn uniongyrchol am gynnydd y safle, gael eu cynnwys uchod, neu ohebu â ni'n uniongyrchol.

## STATWS CYNLLUNIO AC AROLYGON SAFLE

13. A yw'r safle dan sylw yn y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol, naill ai'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd?

14. Statws Cynllunio Cyfredol (Os yw'n berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| 15. | Hanes Cynllunio Safle (gan gynnwys unrhyw ganiatâd cynllunio sydd wedi'i roi neu resymau dros wrthod): | |
| 16. | A oes unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio wedi bod gyda'r Cyngor, gan gynnwys cyn-gais ffurfiol? Os felly, nodwch fanylion. | |
| 17. | Os yw'r safle wedi bod yn destun cais neu gyn-gais cynllunio. Pa arolygon oedd eu hangen? Rhowch fanylion a chopïau o unrhyw arolygon sydd wedi'u cynnal hyd yma | |

## LLEOLIAD A HYGYRCHEDD

| | | ✓ | X | Unrhyw sylwadau eraill |
|---|---|---|---|---|
| 18. | A yw'r safle o fewn 400m i wasanaethau a chyfleusterau allweddol (e.e. ysgolion, siopau cyfleus, archfarchnadoedd, gofal iechyd, man chwarae, cyfleusterau yn y gymuned)? Os ydy, rhowch fanylion: Os dyw e ddim, beth yw'r pellter i'r cyfleusterau agosaf yma? | | | |
| 19. | A yw'r safle o fewn 400m i fannau gwyrdd, fan agored i'r cyhoedd neu tir mynediad agored? Os ydy, rhowch fanylion: Os dyw e ddim, beth yw'r pellter i'r fan werdd/man agored i'r cyhoedd agosaf? | | | |
| 20. | A yw'r safle o fewn 400metr i ganolfan manwerthu sy'n bodoli eisoes, yn unol â diffiniad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol ac fel y dangosir ar y map cynigion cysylltiedig? Os ydy e, pa ganolfan(oedd) sydd o fewn 400m iddo? Os dyw e ddim, beth yw'r ganolfan agosaf a pha mor bell yw hi? | | | |

## CYMERIAD A CHYD-DESTUN Y SAFLE

| | ✓ | X | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|---|
| 21. A oes unrhyw gyfyngiadau corfforol ar y safle? | | | |
| 22. A yw'r defnydd yn cael ei effeithio gan ddefnyddiau cyfagos sy'n gwrthdaro? | | | |
| 23. A yw'r safle'n destun unrhyw gyfyngiadau allweddol eraill? | | | |
| 24. A oes unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi'r safle? | | | |

## HYGYRCHEDD A CHAPASITI PRIFFYRDD

| | ✓ | X | Manylion pellach |
|---|---|---|---|
| 25. A oes modd cyrraedd y safle ar hyn o bryd o'r rhwydwaith priffyrdd presennol? | | | |

Os na, esboniwch pa seilwaith sydd ei angen i gyflawni'r safle, a dangoswch sut byddai modd sicrhau mynediad:

| |
|---|
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26. A oes cyllid ar gael i gyflawni'r gofynion seilwaith angenrheidiol? | | | |
| 27. A yw'r safle o fewn 400m i lwybr teithio llesol sy'n bodoli neu wedi'u cynllunio? Nodwch y pellter i'r llwybr teithio llesol agosaf.<br><br>Os na, pa gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer hyrwyddo teithio llesol o fewn ac o amgylch y safle a chysylltu â'r rhwydwaith presennol? | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 28. | A yw'r safle o fewn 400m i arhosfan bws neu orsaf reilffordd bresennol? Os ydych, rhowch fanylion yn cynnwys amlder y gwasanaethau sy'n defnyddio'r arhosfan bysiau neu'r orsaf reilffordd. Os na, beth yw'r pellter i'r arhosfan bws neu'r orsaf reilffordd agosaf? Rhowch fanylion unrhyw gyswllt â gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus i wella mynediad trafnidiaeth gyhoeddus i/o'r safle. | | | |

## EFFAITH TIRWEDD AC AMGYLCHEDDOL

| | | ✓ | X | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|---|---|
| 29. | A oes risg bod y safle wedi'i halogi neu o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer? | | | |
| 30. | A yw etifeddiaeth glofa glo ein hardal yn effeithio ar y safle? | | | |
| 31. | A yw'r safle o fewn Ardal Gadwraeth? | | | |
| 32. | A fyddai'r cynnig yn effeithio ar ased treftadaeth? (Fel adeilad rhestredig). | | | |
| 33. | A yw'r safle wedi'i leoli ar dir amaethyddol gradd 1, 2 neu 3a? A yw'r safle o fewn ardal dirwedd ddynodedig fel Lletem Werdd neu Ardal Tirwedd Arbennig? | | | |
| 34. | A fydd y safle'n cynnwys Seilwaith Gwyrdd neu'n darparu ardaloedd o gysylltedd cynefinoedd? | | | |
| 35. | A oes risg bod y safle wedi'i halogi neu o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer? | | | |

36. A fyddai'r safle'n effeithio ar unrhyw ddynodiadau amgylcheddol cenedlaethol, rhanbarthol neu leol? Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur | | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | |
| Ardal Cadwraeth Arbennig | | Safle sy'n Ddaearegol Bwysig yn Rhanbarthol | |
| Arall | | | |

## PERYGL LLIFOGYDD

| | | ✓ | X | Rhagor o Fanylion |
|---|---|---|---|---|
| 37. | A yw'r safle'n dod (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o fewn parth perygl llifogydd yn y Map Cyngor Datblygu neu'r Map Llifogydd ar Gyfer Cynllunio? | ☐ | ☐ | |

## ARDALOEDD DIOGELU MWYNAU A LLEINIAU CLUSTOGI

| | | ✓ | X | Rhagor o Fanylion |
|---|---|---|---|---|
| 38. | A yw'r safle o fewn ardal diogelu mwynau neu parth glustogi? | ☐ | ☐ | |

## CAPASITI SEILWAITH

39. Dywedwch wrthon ni pa rai o'r cyfleustodau canlynol sydd ar gael i'r safle:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prif Gyflenwad Dŵr | ☐ | Prif Bibellau Carthffosiaeth | ☐ |
| Cyflenwad Trydanol | ☐ | Cyflenwad Nwy | ☐ |
| Llinellau Tir | ☐ | Band Llydan Ffibr | ☐ |

Arall (nodwch): E.e Pwynt gwefru Cerbydau Trydan

Rhowch ragor o fanylion:

## Y GALLU I GYFLAWNI A DICHONOLDEB

| | | ✓ | X | Rhowch wybodaeth bellach: |
|---|---|---|---|---|
| 40. | Os mai chi yw tirfeddiannwr, a ydych chi'n bwriadu datblygu'r safle eich hun? | ☐ | ☐ | |
| 41. | Os ydych chi'n bwriadu datblygu'r safle eich hun, a oes cyllid ar gael i dalu costau datblygu (e.e. cyllid grant, benthyciad wedi'i warantu, cyfleuster banc)? | ☐ | ☐ | |
| 42. | Hyd yn hyn, a oes trafodaethau wedi'u cynnal â'r darpar ddatblygwyr? | ☐ | ☐ | |

43. A yw datblygwr wedi mynegi ei ddiddordeb unai trwy gytundeb opsiwn neu gontract cytundebol arall? Os na, ar ba bwynt y mae datblygwr yn debygol o fod yn rhan ohoni?

44. A oes modd i'r safle gyflawni trwy rwymedigaethau ASC a/neu A106?

45. A yw'r safle yn gyffredinol yn gallu darparu ar gyfer y Safonau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy a chydymffurfio â hwy?

46. Gan ystyried yr holl ffactorau, a yw'r safle'n ariannol hyfyw ac a oes modd ei gyflawni?

47. A ydych wedi paratoi asesiad dichonoldeb ar gyfer eich Safle Ymgeisiol?

48. Pe bai caniatâd cynllunio yn ei le nawr, a fyddai'r safle ar gael ar unwaith i'w ddatblygu?

49. A oes unrhyw gyfamodau cyfyngu, cytundebau cyfreithiol neu werthoedd adfachu sy'n ymwneud â defnyddio'r safle?

50. Nodwch amserlen fras ar gyfer cyflwyno'r safle: Ar gyfer cynlluniau preswyl, gan ddefnyddio'r amserlen isod, rhowch amcangyfrif pryd y gallai datblygiad ddechrau a faint o dai y byddai modd eu hadeiladu bob blwyddyn (dyle’r amser a gymerwyd i gael caniatâd cynllunio ei gynnwys yn y rhagolwg hyn).

| 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 |
| | | | | |
| 2034 | 2035 | 2036 | 2037 | 2038 |
| | | | | |

**Mae croeso i chi gyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol atodol sydd gyda chi gyda'ch Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol. Fodd bynnag, nodwch, lle rydych wedi nodi nad yw'ch safle yn cydsynio'n llawn â'r meini prawf cyflwyno ac asesu, dylech gyflwyno tystiolaeth bellach i nodi sut mae modd goresgyn y**

**diffygion, yr effeithiau neu'r cyfyngiadau yma. Efallai y bydd y Cyngor hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth, lle penderfynir ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol, er mwyn galluogi i'r safle gael ei ystyried yng nghamau pellach y broses asesu Safle Ymgeisiol. Mae'r gofynion yma, a'r rhai sy'n ymwneud â lefel fanylder y dystiolaeth gefnogol sy'n ofynnol (yn enwedig ar gyfer tystio'r gallu i gyflawni a dichonoldeb eich safleoedd), wedi'u nodi yn y Fethodoleg Safle Ymgeisiol.**

**Nodwch, pan fyddwch chi'n cyflwyno Safle Ymgeisiol, ni ddylid dehongli hyn fel ymrwymiad ei fod yn addas i'w gynnwys yn y cynllun, nac ychwaith os yw'n cael ei dderbyn.**

## Atodiad 2

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf 2022-2037

**Canllawiau ar gyfer Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol, Mehefin 2022**

## Cefndir a Phwrpas y Canllawiau

Mae'r Canllawiau yma wedi'u llunio ar y cyd â'r Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol. Mae manylion y ddau yn tarddu yn y Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol gyffredinol ar gyfer y broses CDLlD. Dylech chi ddarllen y Fethodoleg cyn cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol gan ei bod yn gyntaf yn nodi'r broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol yn fanwl, yn amlinellu'r hyn y mae disgwyl i chi ei gyflwyno mewn perthynas â'r safle (a phryd), ac yna'n nodi'r holl gamau asesu y bydd safleoedd yn ddarostyngedig iddyn nhw.

Mae'r canllawiau yma'n rhoi cyngor manwl ar sut i gwblhau'r Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol.

Mae'r galw ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol yn cychwyn ym mis Mehefin 2022. Bydd angen cyflwyno pob cyflwyniad ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol, erbyn 5.00pm ar 30fed Medi 2022. Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth ar-lein neu ei hanfon at:

CDLl@rctcbc.gov.uk

Fel arall, mae modd anfon copïau caled at:

Carfan Polisi Cynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Llawr 2
Tŷ Sardis
Heol Sardis
Pontypridd
CF37 1DU

Os oes gennych ymholiadau pellach ar sut i gwblhau'r ffurflen gyflwyno neu ar broses gyffredinol Safleoedd Ymgeisiol (ar ôl darllen y fethodoleg a'r canllawiau hyn), cysylltwch â'r Garfan Polisi Cynllunio a fydd ar gael i'ch cynorthwyo. Mae modd cysylltu â swyddogion trwy (yn ddelfrydol) e-bostio CDLl@rctcbc.gov.uk neu drwy ffonio 01443 281129.

**Yn unol â Rheoliadau'r CDLl, bydd safleoedd sydd wedi'u cyflwyno ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, ac o ganlyniad does dim modd eu trin yn gyfrinachol. Fodd bynnag, bydd data'n cael ei drin mewn modd sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.**

## Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol: Beth i'w Gynnwys

**Mae'r canllawiau canlynol wedi'u llunio er mwyn galluogi hyrwyddwyr safleoedd i gwblhau'r ffurflen gyflwyno mor gynhwysfawr â phosibl ac mae'n dilyn strwythur y ffurflen.**

Rhaid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob safle unigol neu fath o gynnig ar bob safle. Dylai'r cyflwyniad gynnwys y canlynol:

- Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol gyflawn;

  Cynllun cyfredol ar fap sylfaen yr Arolwg Ordnans, ar raddfa 1:1250 neu 1:2500. Rhaid amlinellu ffin y safle yn **goch**, gydag unrhyw dir ychwanegol o fewn yr un berchnogaeth wedi'i amlinellu yn **las**. Mae modd prynu cynlluniau yn uniongyrchol o wefan yr Arolwg Ordnans: Buy A Plan | OS Business Partners (ordnancesurvey.co.uk)

### Dewisiadau Cyfathrebu

Bydd angen i hyrwyddwr y safle nodi ei ddewisiadau cyfathrebu ar y ffurflen. Bydd hyn yn cynnwys nodi a oes well ganddo dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, a thrwy e-bost neu lythyr.

### Manylion Cyswllt (Cwestiwn 1)

Bydd angen i hyrwyddwr y safle gyflwyno'r holl fanylion cyswllt perthnasol ar y Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol. Bydd y data yma'n cael ei storio mewn modd sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Sylwch, os oes asiant wedi'i enwebu ar y ffurflen, bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei hanfon yn uniongyrchol at yr asiant, yn hytrach na hyrwyddwr y safle.

### Enw a Chyfeiriad y Safle (Cwestiynau 2-3)

Os oes enw presennol ar y safle, nodwch ef yma. Os nad oes, nodwch enw sy'n gysylltiedig â'r ardal, cyfeiriad cyfagos neu ddefnydd blaenorol y safle. Os nad oes enw ar y safle ond ei fod yn gorwedd yn uniongyrchol oddi ar ffordd sydd wedi'i henwi, nodwch 'tir i'r [cyfeiriad] o [ffordd]'.

### Cynllun y Safle

Darparwch gynllun cyfredol ar fap sylfaen yr Arolwg Ordnans, ar raddfa 1:1250 neu 1:2500. Rhaid amlinellu ffin y safle yn **goch**, gydag unrhyw dir ychwanegol o fewn yr un berchnogaeth wedi'i amlinellu yn **las**. Yn ogystal, nodwch Gyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans neu nodwch y Dwyreiniadau/Gogleddiadau i ddangos lleoliad y safle.

Caiff Dwyreiniadau/Gogleddiadau eu dangos ar fap rhyngweithiol y Cyngor, sydd ar gael yma: http://www.cartogold.co.uk/rhondda/Rhondda.htm. (Ar ôl i chi ganfod y

safle, rhowch y cyrchwr yng nghanol y safle a darparwch y rhifau chwe digid (hyd at y pwynt degol) ar gyfer pob un (sy'n arddangos yn y gornel chwith uchaf)).

**Ardal y Safle (Hectarau) (Cwestiwn 4)**

Dylech nodi arwynebedd y Safle Ymgeisiol arfaethedig mewn hectarau (a dim mesur arall o arwynebedd).

Ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol preswyl yn benodol, y trothwy isaf ar gyfer y safle yw naill ai 10 annedd, neu isafswm maint safle o 0.3ha.

Mae modd cyflwyno safleoedd llai i'r broses; bydd y safleoedd yma'n cael eu cynnwys yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol. Fodd bynnag, fydd safleoedd o'r math yma **ddim yn cael eu hystyried yn Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer dyraniad penodol**. Bydd y safleoedd yma'n cael eu hystyried yn rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad, neu 'safleoedd annisgwyl' bach, datblygiad Hunan-Adeiladu neu gan nodi bod modd iddyn nhw gael eu dwyn ymlaen ar ryw adeg yn ystod cyfnod y cynllun, os yw'n briodol ar gyfer datblygu.

Does dim isafswm trothwy ar gyfer cyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol holl ddefnyddiau eraill o dir.

**Maes Glas/Tir Llwyd (Cwestiwn 5)**

Dylai hyrwyddwr y safle hefyd nodi a yw'r tir yn dir llwyd (tir a ddatblygwyd o'r blaen), maes glas neu'n 'gymysg', cyfuniad o dir llwyd a maes glas. Mae diffiniad o dir a ddatblygwyd o'r blaen ar dudalen 37 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11).
Planning Policy Wales - Edition 11 (gov.wales)

**Defnydd Presennol (Cwestiwn 6)**

Dylai'r cyflwyniad nodi defnydd presennol o'r tir ar gyfer y safle arfaethedig. Gall defnyddiau o'r fath gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, defnydd y gymuned ac ati. Os oes gan y safle fwy nag un defnydd tir (defnydd cymysg), nodwch y defnyddiau sy'n bresennol.

**Defnydd Arfaethedig (Cwestiwn 7)**

Dylai'r cyflwyniad nodi defnydd arfaethedig o'r tir ar gyfer y Safle Ymgeisiol, neu nodi a yw'r defnydd presennol i'w gadw. Gall defnyddiau arfaethedig o'r tir gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) dai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, defnydd y gymuned, cloddio/echdynnu mwynau, ailgylchu, gwastraff, twristiaeth, ynni adnewyddadwy ac ati. Os yw'r safle yn cael ei gynnig ar gyfer defnydd cymysg, nodwch ddefnyddiau'r tir sydd i'w cynnwys.

**Disgrifiad Byr o'r Cynnig (Cwestiwn 8)**

Dylai'r cyflwyniad gynnwys disgrifiad byr o'r cynnig y mae'r Safle Ymgeisiol yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer.

Dylai cynigion ar gyfer defnydd preswyl nodi nifer yr anheddau i'w darparu ar y safle. Mae polisi cyfredol y CDLl yn nodi y dylid ceisio lefel ddwysedd gyffredinol isaf o 30 annedd yr hectar ar gyfer safleoedd yn yr Ardal Strategaeth Ogleddol, a 35 annedd yr hectar ar gyfer safleoedd yn yr Ardal Strategaeth Ddeheuol. Dylid cyfiawnhau gostyngiadau ar y rhain.

Gall hyn gynnwys hefyd (ond nid yw'n gyfyngedig i) arwydd o arwynebedd llawr manwerthu (mewn metrau sgwâr) neu sawl MW (megawat) y mae modd i gynnig sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy ei gynhyrchu.

I ganfod pa faes strategaeth y mae eich safle yn rhan ohono, defnyddiwch y ddolen isod i fap rhyngweithiol y Cyngor. (Fel y mae 'allwedd' y map yn ei ddangos, caiff ffiniau'r ardal strategaeth eu dynodi gan linell doredig ddu).
http://www.cartogold.co.uk/rhondda/Rhondda.htm

**Perchnogaeth (Cwestiynau 9-12)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'n berchen ar y safle sy'n cael ei gyflwyno a'r tir sydd eu hangen am mynediad. Os nag ydy, mae modd cyflwyno manylion cyswllt unrhyw un a phob perchennog y safle, ar yr amod eu bod yn cytuno i hyn ac i'r broses. Dylai cynllun ddangos manylion perchnogaeth, lle mae mwy nag un tirfeddiannwr yn rhan o bethau. Dylai'r holl dirfeddianwyr eraill sy'n gysylltiedig â'r safle, sy'n dymuno cael gwybod yn uniongyrchol am gynnydd y safle, gael eu cynnwys neu ddewis gohebu â ni'n uniongyrchol. Bydd manylion cyswllt pob tirfeddiannwr yn cael eu storio mewn modd sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Lle nad yw hyrwyddwr y safle yn berchen ar y safle arfaethedig, dylai nodi sut y bydd modd ei gynnwys yn rhan o'r CDLl Diwygiedig.

Er enghraifft, a yw datblygwr wedi gwneud cytundeb gyda'r tirfeddiannwr neu i'r gwrthwyneb? A yw'r tirfeddiannwr wedi cytuno i ddatblygiad posibl y safle, gyda neu heb unrhyw amodau? Dylai hyrwyddwr y safle ddarparu tystiolaeth o unrhyw gytundebau a wnaed, i brofi bod modd cyflawni'r safle a bod modd ystyried ei gynnwys yn rhan o'r CDLl Diwygiedig.

Dylai hyrwyddwr y safle hefyd nodi a yw perchennog y tir yn barod i werthu'r tir sy'n cael ei gynnig fel Safle Ymgeisiol, ac a yw'n credu bod gwerth cynnydd ystyrlon, sy'n ddigonol i annog y gwerthiant. Lle nad hyrwyddwr y safle sy'n berchen ar y tir, dylai ddarparu manylion unrhyw ddeialog neu gytundebau a wnaed gyda'r tirfeddiannwr hyd yma. Os mai 'na' yw'r ateb i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau hyn, efallai y bydd hyrwyddwr y safle am nodi sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r mater.

**Statws Cynllunio ac Arolygon Safle (Cwestiwn 13)**

A yw'r safle wedi'i ddyrannu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol, naill ai'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd?

Mae modd gweld manylion yr holl ddyraniadau yn y CDLl cyfredol ar fap rhyngweithiol y Cyngor, sydd ar gael yn: http://www.cartogold.co.uk/rhondda/Rhondda.htm

**Statws Cynllunio Cyfredol (Cwestiwn 14)**

Dylai'r cyflwyniad nodi a oes unrhyw gydsyniadau cynllunio 'byw' neu mewn bodolaeth ar y safle arfaethedig. Darparwch fanylion llawn gan gynnwys cyfeirnod y cais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid darparu gwybodaeth i nodi pam na chafodd y safle ei ddatblygu i'r defnydd a ganiateir.

Mae modd chwilio am geisiadau ar ôl 2004 gan ddefnyddio adnodd chwilio ar-lein y Cyngor, sydd ar gael yn: https://planningonline.rctcbc.gov.uk/online-applications/?lang=CY

**Hanes Cynllunio'r Safle (Cwestiwn 15)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle wedi cael caniatâd cynllunio o'r blaen, neu wedi cael caniatâd cynllunio wedi'i wrthod. Os cafodd caniatâd ei wrthod ar y safle, dylid cynnwys y rhesymau dros wrthod. Lle mae safle wedi'i gymeradwyo o'r blaen, dylid darparu manylion llawn gan gynnwys cyfeirnod y cais.

**Cyn gwneud cais (Cwestiwn 16)**

Os oes cyflwyniad cyn gwneud cais ffurfiol wedi'i wneud, darparwch y cyfeirnod cyn gwneud cais, ynghyd â chrynodeb byr o'r cyngor a roddwyd.

**Arolygon Safle (Cwestiwn 17)**

Pa arolygon sy'n ofynnol neu'n debygol o fod yn ofynnol? A oes unrhyw arolygon wedi'u cynnal yn rhan o unrhyw gais blaenorol, neu a roddwyd arwydd yn ystod trafodaethau ffurfiol neu anffurfiol gyda'r Cyngor ynghylch gwaith tirfesur posibl y byddai angen ei gwblhau i ddatblygu'r safle? Ymhlith yr enghreifftiau mae Arolygon Ecoleg, Asesiad Canlyniadau Llifogydd ac Astudiaethau Trafnidiaeth.

**Lleoliad a Hygyrchedd**

**Gwasanaethau a Chyfleusterau Allweddol (Cwestiwn 18)**

Bydd angen rhoi manylion ynghylch pa mor agos mae'r safle arfaethedig at wasanaethau a chyfleusterau allweddol sy'n bodoli eisoes, megis (ond heb fod yn gyfyngedig i) ysgolion, siopau cyfleustra, archfarchnadoedd, gofal iechyd a mannau chwarae. Mae'r ffurflen yn ceisio sefydlu a oes unrhyw wasanaethau a chyfleusterau allweddol o fewn 400 metr (pum munud ar droed) i'r safle ac yn hygyrch. Nodwch unrhyw gyfleuster sydd o fewn y radiws 400 metr yma ar y Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol. Bydd angen i hyrwyddwr y safle nodi'r pellter i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau allweddol agosaf, os yw'n fwy na'r 400 metr a nodwyd, a nodi pa wasanaethau ydyn nhw.

**Mannau Gwyrdd, Cyhoeddus neu Fannau Agored (Cwestiwn 19)**

Bydd angen darparu manylion ynghylch pa mor agos mae'r safle arfaethedig at fannau gwyrdd, agored neu tir mynediad agored sy'n bodoli eisoes. Mae'r ffurflen yn ceisio sefydlu a oes unrhyw fannau gwyrdd cyhoeddus neu fannau agored o fewn 400 metr (pum munud ar droed) i'r safle. Bydd angen i hyrwyddwr y safle nodi'r pellter i'r man agored, wyrdd neu tir mynediad agored agosaf, os yw'n fwy na'r 400 metr a nodwyd. http://lle.gov.wales/Catalogue?lang=en&text=Open%20access

**Agosrwydd at Ganolfannau Manwerthu (Cwestiwn 20)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle o fewn 400 metr i ganolfan fanwerthu sy'n bodoli eisoes, yn unol â'r diffiniad yn y Cynllun Datblygu Lleol Cyfredol ac wedi'i ddangos ar y map cynigion cysylltiedig. Os oes canolfan o fewn 400 metr i'r safle, dylai hyrwyddwr y safle nodi pa ganolfan/canolfannau. Fodd bynnag, lle nad yw'r safle o fewn 400 metr, dylai hyrwyddwr y safle nodi pellter ac enw'r ganolfan agosaf. Mae modd gweld y canolfannau manwerthu diffiniedig ar fap cynigion CDLl y Cyngor, sydd ar gael yn: http://www.cartogold.co.uk/rhondda/

**Cymeriad a Chyd-destun y Safle**

**Cyfyngiadau Corfforol (Cwestiwn 21)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a oes angen goresgyn unrhyw gyfyngiadau corfforol ar y safle. Gall cyfyngiadau o'r fath gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) strwythurau sy'n bodoli eisoes (y mae angen eu clirio cyn eu datblygu), topograffi serth, sefydlogrwydd y safle, neu lystyfiant trafferthus a/neu rywogaethau ymledol (fel Canclwm Siapan). Nodwch fanylion y cyfyngiad, ochr yn ochr ag unrhyw gynigion ar gyfer eu datrys.

**Gwrthdaro yn y Defnydd Cyfagos (Cwestiwn 22)**

Darparwch fanylion unrhyw ddefnyddiau sy'n gwrthdaro neu 'ddefnydd gwael cyfagos' ar y Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol. Ar gyfer cynigion preswyl, gall 'cymydog drwg', er enghraifft, gynnwys diwydiant amrywiol, priffyrdd mawr, llinellau pŵer, prif bibellau nwy neu os yw'r tir yn cael ei ystyried yn risg o dân (trwy danau gwyllt) neu lygryddion sŵn neu aer cyffredinol eraill. I'r gwrthwyneb, gallai ardaloedd preswyl sy'n bodoli eisoes fod yn ddefnyddiau sy'n gwrthdaro ar gyfer cynigion diwydiant trwm neu chwarel.

Nodwch fanylion yr effeithiau ar y cynnig ar y ffurflen, ynghyd ag unrhyw atebion arfaethedig.

https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Business/LicencesandPermits/Pollutionrelatedlicences/EnvironmentalPermitting.aspx

https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/check-for-a-permit-licence-or-exemption/?lang=en

http://extrium.co.uk/walesnoiseviewer.html

**Cyfyngiadau Allweddol Eraill (Cwestiwn 23)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n destun unrhyw gyfyngiadau allweddol eraill (e.e. dynodiadau tirwedd, diogelu mwynau, dynodiadau hanesyddol ac archeolegol). Mae modd cael rhywfaint o'r wybodaeth ar fap Cynllun Datblygu Lleol rhyngweithiol ar-lein y Cyngor, sydd i'w weld yn: http://www.cartogold.co.uk/rhondda/. Mae modd cael mwy o wybodaeth ar y **Map Cyfyngiadau**, sydd ar gael o'r wefan gyfredol rydych chi ar - Galw i Gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/PlanningandBuildingControl/RelatedDocuments/Pdfs/ConstraintMaps2022.pdf

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Cwestiwn 24)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle arfaethedig yn cynnwys unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus. Mae gwybodaeth am hawliau cyhoeddus ar gael ar wefan y Cyngor, yma:
https://fymhethau.rctcbc.gov.uk/fyRhondda.aspx

Neu fel arall, mae modd cael yr haenau gan Gyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:
https://cyfoethnaturiol.cymru/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/public-rights-of-way/?lang=cy

**Hygyrchedd a Chapasiti Priffyrdd**

**Hygyrchedd Cyfredol (Cwestiwn 25)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n hygyrch o rwydwaith priffyrdd sy'n bodoli eisoes ai peidio (a'r lefel o ffordd). Os nad ydy, bydd angen i hyrwyddwr y safle nodi pa seilwaith sydd ei angen i gyflawni'r safle, a dangos ar gynllun cysylltiedig ar wahân sut y mae modd sicrhau mynediad.

Os oes angen tir trydydd parti er mwyn sicrhau mynediad, dylid cynnwys manylion unrhyw gyswllt sydd wedi'i wneud â pherchennog y tir trydydd parti hwnnw. Dylai bod modd cysylltu â'r trydydd parti i gadarnhau unrhyw gytundebau.

**Ariannu/Cyllid (Cwestiwn 26)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a oes ganddo'r arian neu'r cyllid angenrheidiol i gyflawni'r seilwaith sy'n ofynnol ar y safle. Darparwch fanylion cyllid i dalu costau'r seilwaith i'r Cyngor, lle maen nhw ar waith. Lle nad oes trefniadau wedi'u gwneud, dylai'r tirfeddiannwr nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau arian/cyllid.

**Llwybrau Teithio Llesol (Cwestiwn 27)**

Bydd angen darparu manylion ynghylch agosrwydd y safle arfaethedig at Lwybrau Teithio Llesol presennol neu arfaethedig. Mae'r ffurflen yn ceisio canfod a oes (neu a fydd) unrhyw lwybrau teithio llesol o fewn 400 metr (taith gerdded pum munud) i'r safle. Bydd angen i hyrwyddwr y safle nodi'r pellter i'r Llwybr Teithio Llesol agosaf, hyd yn oed os yw'n fwy na'r 400m a nodir. Gellir gweld mapiau rhwydwaith teithio llesol (llwybrau presennol neu arfaethedig)y Cyngor gan ddefnyddio'r ddolen isod:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/ActiveTravelandCycling.aspx

**Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cwestiwn 28)**

Bydd angen darparu manylion hefyd ynghylch agosrwydd y safle arfaethedig at arosfannau bysiau a gorsafoedd rheilffordd presennol. Mae'r ffurflen yn ceisio canfod a oes unrhyw wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus o fewn 400 metr (taith gerdded pum munud). Dylid nodi pa gyfleusterau y mae'r safle'n agos a'u cylch a pha ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu. Dylid darparu gwybodaeth am amlder y gwasanaethau bws a/neu drenau ac a oes rhwystrau ar y ffordd i gael mynediad i'r drafnidiaeth gyhoeddus megis diffyg palmentydd neu bryn serth. Bydd angen i hyrwyddwr y safle nodi'r pellter i'r cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus agosaf, os yw'n fwy na'r 400m a nodir a nodi pa gyfleusterau ydynt.

**Effaith Tirwedd ac Amgylcheddol**

**Llygriad (Cwestiwn 29)**

Os oes risg bod unrhyw ran o'r safle sy'n cael ei gynnig yn cynnwys tir wedi'i lygru, dylai hyrwyddwr y safle roi manylion i'r Cyngor am ffynhonnell bosibl y llygredd hwnnw.

Gall tir gael ei lygru gan (nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr):

- Metelau trwm, fel arsenig, cadmiwm a phlwm
- Olewau a thar
- Sylweddau a pharatoadau cemegol, fel toddyddion
- Nwyon
- Asbestos
- Sylweddau ymbelydrol

Beth sy'n cyfrif fel 'tir wedi'i lygru'?
Caiff tir ei ddiffinio'n gyfreithiol fel 'tir wedi'i lygru' lle mae sylweddau'n achosi neu'n gallu achosi:

- Niwed sylweddol i bobl, eiddo neu rywogaethau a warchodir
- Llygredd sylweddol ar ddyfroedd wyneb (er enghraifft llynnoedd ac afonydd) neu ddŵr daear
- Niwed i bobl o ganlyniad i ymbelydredd

Mae'n bosibl y byddai tir wedi'i lygru wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen fel (ond ni fyddai wedi'i gyfyngu i):

- Ffatri
- Mwynglawdd
- Melin ddur
- Purfa
- Safle tirlenwi

Mae gan y Cyngor Gofrestr Tir Halogedig nad yw'n gyhoeddus a ddefnyddir i asesu'r safle.

Ceir ystyriaethau pellach isod

**https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Business/LicencesandPermits/Pollutionrelatedlicences/EnvironmentalPermitting.aspx**

**https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/check-for-a-permit-licence-or-exemption/?lang=en**

Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor, drwy Orchymyn, dan Adran 83(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Yn sgil torri Amcanion Ansawdd Aer ar gyfer Nitrogen Deuocsid, mae 16 o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar hyn o bryd o fewn ffiniau Rhondda Cynon Taf. Mae modd dod o hyd i fanylion pellach yma:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/LicencesandPermits/Pollutionrelatedlicences/AirQuality.aspx

http://extrium.co.uk/walesnoiseviewer.htmlhttps://uk-air.defra.gov.uk/aqma/maps/

https://airquality.gov.wales/

**Etifeddiaeth Mwyngloddio Glo (Cwestiwn 30)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n dod o fewn ardal risg mwyngloddio glo uchel. Mae modd cael yr wybodaeth yma gan yr Awdurdod Glo (https://mapapps2.bgs.ac.uk/coalauthority/home.html) neu o'r map mewn arddull cyfyngiadau y mae'r Cyngor wedi'i llunio i gynorthwyo hyrwyddwyr safleoedd gyda'r broses Safle Ymgeisiol. Dylid nodi bod cyfyngiadau etifeddiaeth eraill sy'n benodol i'r safle ar gyfer cloddio glo yn briodol.

**Ardal Gadwraeth (Cwestiwn 31)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n dod o fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig. Mae modd cael yr wybodaeth yma o fap ar-lein y Cyngor, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn: https://fymhethau.rctcbc.gov.uk/fyRhondda.aspx
Mae modd cael mwy o wybodaeth ar y **Map Cyfyngiadau**, sydd ar gael o'r wefan gyfredol rydych chi ar - Galw i Gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

**https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/PlanningandBuildingControl/RelatedDocuments/Pdfs/ConstraintMaps2022.pdf**

**Ased Treftadaeth (Cwestiwn 32)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n effeithio ar ased treftadaeth sy'n bodoli eisoes, fel adeilad rhestredig. Mae modd dod o hyd i'r wybodaeth yma ar fap rhyngweithiol y Cyngor, sydd ar gael ar wefan y Cyngor, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: https://fymhethau.rctcbc.gov.uk/fyRhondda.aspx

**Tir Amaethyddol (Cwestiwn 33)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a fyddai'r cynnig yn arwain at golli tir amaethyddol gradd 1, 2 neu 3a. Nodwch ddosbarthiad y tir amaethyddol sydd i'w golli ar y Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol (hyd yn oed os yw'r safle'n dod o fewn dosbarthiad amaethyddol is). Dylai hyrwyddwr y safle hefyd nodi a yw'r tir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol ar hyn o bryd, ynghyd â faint o dir amaethyddol sy'n debygol o gael ei golli. Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddosbarthiadau tir amaethyddol ar wefan Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

Predictive Agricultural Land Classification (ALC) Map 2 | DataMapWales (gov.wales)

**Lletem Werdd/Ardal Tirwedd Arbennig (Cwestiwn 34)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle o fewn Lletem Werdd neu Ardal Tirwedd Arbennig yn y Cynllun Datblygu Lleol Cyfredol a'i ddangos ar y map cynigion cysylltiedig. Mae modd gweld y Lletemau Gwyrdd a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar fap cynigion CDLl y Cyngor, sydd ar gael yn: http://www.cartogold.co.uk/rhondda/

**Seilwaith Gwyrdd/Cysylltedd Cynefinoedd (Cwestiwn 35)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'n bwriadu cyfrannu at y rhwydwaith o seilwaith gwyrdd neu gysylltedd cynefinoedd trwy ddarparu tir at y dibenion hynny, yn rhan o unrhyw ddatblygiad arfaethedig o'r Safle Ymgeisiol. Os ydy, dylai hyrwyddwr y safle ddarparu manylion ei fwriad.

**Dynodiadau Amgylcheddol Cenedlaethol, Rhanbarthol neu Leol (Cwestiwn 36)**

Nodwch a yw'r safle'n dod o fewn unrhyw un o'r canlynol: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI); Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC); Maes Cadwraeth Arbennig (SAC); Safle Daearegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS); Gwarchodfa Natur Leol (LNR); Parc neu Ardd Hanesyddol (HP/G); neu a oes Gorchymyn Diogelu Coed (TPO) yn unrhyw le o fewn 'ffin llinell goch' y safle. Dylai hyrwyddwr y safle roi tic wrth ymyl popeth sy'n berthnasol ar y Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol. Mae modd defnyddio'r map cyfyngiadau i benderfynu a yw unrhyw ddynodiadau o'r fath yn effeithio ar eich Safle Ymgeisiol. Mae'r **Map Cyfyngiadau**, ar gael o'r wefan gyfredol rydych chi ar - Galw i Gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/PlanningandBuildingControl/RelatedDocuments/Pdfs/ConstraintMaps2022.pdf

**Perygl Llifogydd**

**Perygl Llifogydd (Cwestiwn 37)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n dod o fewn parth perygl llifogydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol fel y dangosir yn y Mapiau Cyngor Datblygu neu'r Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

**Map Cyngor Datblygu**

Y Map Cyngor Datblygu a pholisi cynllunio cysylltiedig Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd yw'r fframwaith presennol ar gyfer asesu pergyl llifogydd ar ddatblygiadau newydd ac oddi wrthynt.

Mae'r Map Cyngor Datblygu yn offeryn sgrinio i awdurdodau lleol er mwyn deall lle y gallai fod angen asesiad pellach o lifogydd.

Geocortex Viewer for HTML5 (cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

**Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio**

Bydd Nodyn Cyngor Technegol 15 yn cael ei weithredu ym Mehefin 2023. Bydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cefnogi hwn. Mae'r map yn cynnwys gwybodaeth am newid hinsawdd i ddangos sut bydd hyn yn effeithio ar yr ardaloedd sydd mewn pergyl o lifogydd dros y ganrif nesaf.

Does gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ddim statws swyddogol ar gyfer dibenion cynllunio tan Fehefin 2023. Fodd bynnag, bydd rhaid i awdurdodau lleol adolygu eu Hasesiadau Goblygiadau Llifogydd Strategol erbyn Tachwedd 2022, yn unol â'r TAN15 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio'r data hefyd fel y 'wybodaeth orau sydd ar gael' ar risg llifogydd er mwyn hysbysu ei gyngor cynllunio.

Mae dwy olyfga gan y map:

- Sylfaenol - mae hwn yn cynnwys digon o ddata ar gyfer sgrinio lefel uchel yn erbyn Nodyn Cyngor Technegol 15
- Manwl - mae hwn yn cynnwys manylion ychwanegol a all gael eu defnyddio ar gyfer Asesiadau Canlyniadau Llifogydd

Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (cyfoethnaturiol.cymru)

Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 cyfredol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir ei weld drwy ddefnyddio'r ddolen isod.

Technical advice note (TAN) 15: development and flood risk (2004) | GOV.WALES

Gellir gweld y TAN 15 sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2023 isod;

Technical advice note (TAN) 15: development, flooding and coastal erosion | GOV.WALES

Gall y TAN 15 newydd a'r mapiau cysylltiedig fod yn destun diwygiadau yn y dyfodol.

### Ardaloedd Diogelu Mwynau a Lleiniau Clustogi

### Ardal Diogelu Mwynau sy'n Bodoli Eisoes (Cwestiwn 38)

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r Safle Ymgeisiol yn dod o fewn ardal diogelu mwynau. Os ydy, dylid nodi a fyddai'r datblygiad yn achosi sterileiddiad annerbyniol o'r mwyn.

Mae modd cael mwy o wybodaeth ar y **Map Cyfyngiadau**, sydd ar gael o'r wefan gyfredol rydych chi ar - Galw i Gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/PlanningandBuildingControl/RelatedDocuments/Pdfs/ConstraintMaps2022.pdf

### Parth Glustogi Mwynau Chwarel (Cwestiwn 38)

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n dod o fewn parth glustogi mwynau chwarel ar gyfer y chwareli agregau yn RhCT, h.y. Chwarel Craig yr Hesg, Pontypridd; Chwarel yr Hendy, Meisgyn, Pont-y-clun; neu Chwarel Forest Wood, Pont-y-clun. Os felly, dylid nodi enw neu gyfeirnod y parth glustogi ar y Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol. Gwelir y parth clustogi mwynau ar y **Map Cyfyngiadau**, sydd ar gael o'r wefan gyfredol rydych chi ar - Galw i Gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/PlanningandBuildingControl/RelatedDocuments/Pdfs/ConstraintMaps2022.pdf

### Capasiti Seilwaith

### Cyfleustodau (Cwestiwn 39)

Ticiwch y blychau perthnasol i nodi a yw'r gwasanaethau canlynol yn gwasanaethu'r safle: Prif gyflenwad dŵr, prif gyflenwad carthffosiaeth, cyflenwad trydanol, cyflenwad nwy, ffôn llinell dir a/neu fand eang. Dylid nodi unrhyw bwyntiau trydan am cerbydau trydan presennol ar y safle hefyd. Dylid nodi unrhyw fath arall o wasanaeth yn y blwch perthnasol. Os nad oes darpariaeth cyfleustodau ar gael ar y safle ar hyn o bryd, dylai hyrwyddwr y safle egluro sut y bydd mynediad at wasanaethau o'r fath yn cael ei gyflawni.

### Cyflawniad a Dichonoldeb

### Bwriadau'r Tirfeddiannwr (Cwestiwn 40)

Os mai hyrwyddwr y safle yw'r tirfeddiannwr presennol, dylid nodi a oes bwriad ganddo i ddatblygu'r safle ai peidio. Os nad oes, darparwch fanylion trafodaethau gydag unrhyw ddatblygwyr.

### Ariannu/Cyllid (Cwestiwn 41)

Darparwch fanylion cyllid i dalu'r holl gostau datblygu i'r Cyngor, lle maen nhw ar waith. Lle nad oes trefniadau wedi'u gwneud, dylai'r tirfeddiannwr nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau arian/cyllid (e.e. cyllid grant, benthyciad banc wedi'i warantu, cyfleuster banc).

**Trafodaethau gyda Datblygwyr Posibl (Cwestiwn 42)**

Mae'r ffurflen yn ceisio darganfod a oes unrhyw drafodaethau wedi digwydd gyda darpar ddatblygwyr. Os oes, bydd angen i hyrwyddwr y safle ddarparu manylion unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd.

**Datblygwr (Cwestiwn 43)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw wedi ymrwymo i gytundeb opsiynau neu ryw gytundeb cytundebol arall gydag unrhyw ddatblygwr. Os ydy, dylid darparu manylion i'r Cyngor. Os nad ydy, dylai hyrwyddwr y safle nodi ar ba bwynt y mae'n debygol y bydd datblygwr yn cymryd rhan.

**Rhwymedigaethau Polisi (Cwestiwn 44)**

Dylai hyrwyddwr y safle roi syniad a oes modd cyflawni'r safle gan fodloni gofynion llawn y polisi, mewn perthynas ag ASC (yr Ardoll Seilwaith Cymunedol) a/neu rwymedigaethau Adran 106. Mae modd dod o hyd i wybodaeth am yr Ardoll Seilwaith Cymunedol ar wefan y Cyngor yma:
https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/PlanningandBuildingControl/CommunityInfrastructureLevy/CommunityInfrastructureLevy.aspx

Mae modd gweld gofynion y polisi presennol yn nogfen y CDLl, ac mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) cysylltiedig ar gael yn:

Adopted LDP 2011 (rctcbc.gov.uk)

Mae modd dod o hyd i CCA y Cyngor yma:
https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/PlanningandBuildingControl/LocalDevelopmentPlans/SupplementaryPlanningGuidance.aspx

**Systemau Draenio Cynaliadwy (Cwestiwn 45)**

Materion fel y dopograffeg (e.e. A yw'r safle'n disgyn am fwy nag 1:20), amodau tir a defnydd tir blaenorol o'r safle (tir halogedig, deunydd domen, tir wedi'i wneud), bwrdd dŵr daear uchel, ardaloedd amgylcheddol sensitif a'r cynnig datblygu ei hun yn cael effaith ar p'un a ellir defnyddio SUDs ar y safle – neu'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae'n amlwg y byddai cyfyngiadau lluosog yn cael mwy o effaith. Dylid nodi'r nodweddion safle cyffredinol hyn yn ystod y cam cyflwyno.

Fodd bynnag, byddai ymgorffori SUDs yn y datblygiad yn cael ei ystyried ymhellach yn asesiad Cam 3 Hyfywedd/Cyflawni, ar y cyd â swyddogion y Cyngor sy'n cynnal swyddogaeth y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy. Er gwybodaeth, y Safonau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), fel y nodir ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn y lleoliad canlynol;

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Roadspavementsandpaths/SustainableDrainage/SustainableDrainage.aspx

**Dichonoldeb (Cwestiwn 46)**

Dylid nodi, gan ystyried popeth, a yw'r safle'n cael ei ystyried yn ddichonol i'w ddatblygu ai peidio. Sylwch y bydd angen asesiad dichonoldeb llawn cyn dyrannu safle. Caiff hyn ei ystyried ymhellach yn y Fethodoleg Safle Ymgeisiol.

**Asesiad Dichonoldeb (Cwestiwn 47)**

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a oes asesiad dichonoldeb wedi'i gynnal ar y safle arfaethedig a'i gynllun cysylltiedig. Os oes, dylid cyflwyno copi o'r asesiad i'r Cyngor gyda'r Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol.

**Argaeledd Safle (Cwestiwn 48)**

Pe bai gan y safle ganiatâd cynllunio ar waith, a fyddai'r safle ar gael ar unwaith i'w ddatblygu? Bydd angen i hyrwyddwr y safle ddarparu manylion unrhyw rwystrau a fyddai'n atal y safle rhag cael ei gyflwyno ar unwaith, gan dybio bod pob caniatâd angenrheidiol wedi'i roi.

**Cyfamodau Cyfyngu, Cytundebau Cyfreithiol neu Werthoedd Adfachu (Cwestiwn 49)**

Dylid nodi ar y Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol a oes gan y safle unrhyw gyfamodau hysbys neu gyfyngiadau eraill ar unrhyw ran o'r tir o fewn ffiniau'r safle. Os oes unrhyw gyfyngiadau o'r fath wedi'u gosod ar y tir, dylid darparu manylion i'r Cyngor. Dylai hyrwyddwr y safle hefyd nodi sut y bydd y cyfyngiad yn effeithio ar y cynnig, ynghyd â chynnig unrhyw atebion i oresgyn y cyfyngiad.

**Amserlenni Bras (Cwestiwn 50)**

Nodwch (yn y tabl a ddarperir yn y Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol) amserlen fras ar gyfer cyflawni'ch Safle Ymgeisiol. Ceisiwch fod mor realistig â phosibl wrth ystyried pryd y gallai'r safle fod yn barod i'w gyflwyno. (dyle'r amser a gymerwyd i gael caniatâd cynllunio ei gynnwys yn y rhagolwg hyn).

Ar gyfer cynigion preswyl yn unig, nodwch pryd y gallai'r datblygiad ddechrau a nifer bras y tai sydd i'w hadeiladu bob blwyddyn, yn ôl eich amserlen datblygu arfaethedig.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Darparwch unrhyw wybodaeth berthnasol bellach sydd heb eu trafod yn y cwestiynau blaenorol, ond sy'n dal yn berthnasol i'ch cyflwyniad.

**Hyrwyddwr y safle yn unig sy'n gyfrifol am wneud y gwaith technegol perthnasol i gefnogi cynnwys safle yn y cynllun, gan gynnwys yr holl gostau ariannol.**.

Mae croeso i chi gyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol atodol sydd gyda chi gyda'ch Ffurflen Gyflwyno Safle Ymgeisiol. Fodd bynnag, nodwch, lle rydych wedi nodi nad yw'ch safle yn cydsynio'n llawn â'r meini prawf cyflwyno ac asesu, dylech gyflwyno tystiolaeth bellach i nodi sut mae modd goresgyn y diffygion, yr effeithiau neu'r cyfyngiadau yma. Efallai y bydd y Cyngor hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth, lle penderfynir ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol, er mwyn galluogi i'r safle gael ei ystyried yng nghamau pellach y broses asesu Safle Ymgeisiol. Mae'r gofynion yma, a'r rhai sy'n ymwneud â lefel fanylder y dystiolaeth gefnogol sy'n ofynnol (yn enwedig ar gyfer tystio'r gallu i gyflawni a dichonoldeb eich safleoedd), wedi'u nodi yn y Fethodoleg Safle Ymgeisiol.

**Nodwch, pan fyddwch chi'n cyflwyno Safle Ymgeisiol, ni ddylid dehongli hyn fel ymrwymiad ei fod yn addas i'w gynnwys yn y cynllun, nac ychwaith os yw'n cael ei dderbyn.**

## Atodiad 3

### Asesiad Safleoedd Ymgeisiol

### Cam 1 – Asesiad Cychwynnol

1. **Trothwy Maint Safle**

1) Mae'r safle yn 0.3ha neu fwy (Safle Ymgeisiol)
2) Mae'r safle yn llai na 0.3ha (Safle ffin yr anheddiad, safle annisgwyl bach neu safle hunan adeiladu)

Canlyniad y cam - Mae safleoedd sy'n llai na 0.3ha yn cael eu tynnu o'r broses Safle Ymgeisiol llawn ond mae modd eu hystyried o hyd i'w cynnwys yn ffin yr anheddiad neu eu hystyried yn safle annisgwyl bach priodol/hunan adeiladu.

**Lleoliad a Hygyrchedd**

2. **A yw'r safle o fewn 400metr i ganolfan manwerthu sy'n bodoli eisoes, yn unol â diffiniad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol (fel y dangosir ar fap Cynigion y CDLl) a chyfleusterau allweddol eraill fel Ysgolion Cynradd ac Uwchradd?** Os ydy, pa ganolfan/canolfannau sydd o fewn 400 metr iddo? Os nad ydy, beth yw enw'r ganolfan agosaf a pha mor bell ydyw? A yw'r safle o fewn 400 metr i wasanaethau a chyfleusterau allweddol eraill fel ysgol, cyfleusterau iechyd, cyfleusterau yn y gymuned ac ati? Dylid hefyd fod yn hygyrch i gerdded.

    1) Mae'r safle o fewn 400 metr i ganolfan manwerthu a wasanaethau eraill (canolfannau manwerthu yn unol â'r diffiniad yn y CDLl cyfredol ac fel y dangosir ar y map cynigion ac ysgolion etc).
    2) Mae  gwasanaethau a chyfleusterau allweddol o fewn 400 metr i'r safle, a/neu  mae Canolfan Fanwerthu yn fwy na 400m.
    3) Nid oes unrhyw Ganolfannau Manwerthu na digon o wasanaethau a chyfleusterau allweddol o fewn pellter addas i'r safle, neu os ydynt, nid ydynt yn hygyrch.

3. **A yw'r safle'n gysylltiedig ag anheddiad sy'n bodoli eisoes?**

1) Ydy, mae'r safle o fewn ffin anheddle sy'n bodoli eisoes.
2) Mae’r safle y tu fas, ond yn cyfagos neu’n berthynol iawn i ffin anheddle sy’n bodoli eisoes.
3) Mae'r safle yn datgysylltiedig o ac yn amberthynol i unrhyw ffin anheddle.

**Casgliad yr adran yma:**

- Mae'n ymddangos bod y safle'n cydsynio â'r adran yma
- Mae angen ystyriaeth/gwybodaeth bellach ynghylch elfennau o'r adran yma
- Dyw hi ddim yn ymddangos bod y safle'n cwrdd â nodau'r adran yma

**Cymeriad a chyd-destun y safle –** Ydy'r safle'n dir llwyd/maes glas? A oes nodweddion topograffig neu ddatblygiad ffisegol ar y safle a all fod yn rhwystr i ddatblygiad? A fyddai datblygiad yn cael effaith ar olygfeydd pwysig? A fyddai yna effaith andwyol bosibl o ddefnyddiau tir cyfagos? Llygriad posib a'r defnydd presennol.

**4. A yw'r safle'n dir llwyd neu'n faes glas?**

1) Tir llwyd (yn unol â'r diffiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru)
2) Cymysg
3) Maes glas (yn unol â'r diffiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru)

**5. A oes unrhyw gyfyngiadau corfforol ar y safle a allai fod yn rhwystr i ddatblygiad?**

1) Na
2) Mae angen gwybodaeth ac ymchwiliad pellach
3) Ydy

**6. A fyddai datblygiad ar y safle yn cael effaith ar olygfeydd pwysig?**

1) Na
2) Mae angen gwybodaeth ac ymchwiliad pellach
3) Bydd

**7. A fyddai unrhyw effaith andwyol yn deillio o ddefnyddiau tir cyfagos a allai wrthdaro?** (er enghraifft diwydiant trwm, tirlenwi, chwarel, yn agos at ffordd a allai fod angen astudiaeth i'w meintioli, neu berygl tân fel rhedyn ar lethrau, sŵn, aer, afonydd)

1) Dim defnyddiau tir sy'n gwrthdaro
2) Mae angen gwybodaeth ac ymchwiliad pellach
3) Byddai effaith andwyol yn deillio o wrthdaro yn nefnyddiau'r tir.

**Casgliad yr adran yma:**

- Mae'n ymddangos bod y safle'n cydsynio â'r adran yma
- Mae angen ystyriaeth/gwybodaeth bellach ynghylch elfennau o'r adran yma
- Dyw hi ddim yn ymddangos bod y safle'n cwrdd â nodau'r adran yma

**Hygyrchedd a chapasiti priffyrdd –** ystyried pa mor addas yw'r safle o ran hygyrchedd ar droed neu ar feic i ystod o gyfleusterau yn y gymuned; llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a pha mor addas yw'r mynediad i'r safle i gerbydau

**8. Ydy'r safle o fewn 400 metr i Lwybr Teithio Llesol RhCT presennol neu arfaethedig (neu'r awdurdod cyfagos)? Nodwch y pellter i'r llwybr teithio llesol agosaf**

1) Ydy
2) Mae angen ystyriaeth/gwybodaeth bellach/Mae angen gwelliannau
3) Nac ydy

**9. Ydy'r safle'n hygyrch i'r ardal ehangach ar droed?**

1) Mae gan y safle hygyrchedd da ar droed (mae rhwydwaith dda o balmentydd di-dor o ansawdd da sydd wedi'u goleuo'n dda ac sy'n hyrwyddo cerdded)
2) Mae angen ymchwiliad pellach ar y safle ynghylch mynediad ar droed (efallai y bydd angen rhai gwelliannau megis gwella ymyrraeth yn y rhwydwaith palmant ond mae'r rhain yn ymddangos yn ymarferol)
3) Does dim mynediad dichonol ar droed i'r safle (mae'r safle mewn lleoliad ynysig, lle mae'n anodd iawn cael mynediad ar droed, os nad yn amhosibl).

**10. A yw'r safle o fewn 400m ac yn hygyrch i lefelau addas o fannau gwyrdd, rhwydwaith seilwaith gwyrdd, mannau agored cyhoeddus neu dir mynediad agored?**

1) Ydy
2) Mae angen rhagor o wybodaeth, cyfyngiadau maint, neu fwy o bellter i gyfleusterau.
3) Nid oes man gwyrdd, rhwydwaith seilwaith gwyrdd, man agored cyhoeddus na thir mynediad agored addas sydd ar gael yn addas i'r safle

**11. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn pellter cerdded (h.y. 400 metr) at arosfannau bysiau a gorsafoedd rheilffordd presennol.? (**Nodwch a yw'r llwybr mynediad yn serth neu wedi'i rwystro).

1) Mae'r safle o fewn 400 metr i gludiant cyhoeddus aml (pob 30 munud trwy’r dydd o leiaf ac ymyl nos), trwy lwybr hygyrch (mynediad hawdd i o leiaf un dull trafnidiaeth gyhoeddus, gyda mynediad da)
2) Mae gan y safle rywfaint o fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus (nid o fewn 400 metr ond o fewn pellter 'rhesymol', trafnidiaeth nad yw'n aml nac yn destun llwybr wedi'i rwystro (serth, ymyrraeth yn y rhwydwaith palmant))
3) Does dim cludiant cyhoeddus sydd yn hygyrch as yn addas i’r safle.

**12. A oes gan y safle fynediad addas i gerbydau? (Yn amodol ar ymgynghoriad gyda chydweithwyr yn y garfan Priffyrdd)**

1) Mae mynediad addas i'r safle i gerbydau (dim gwrthwynebiad priffyrdd)
2) Mae angen cynigion ar gyfer gwella mynediad i'r safle i gerbydau (dim mynediad ar hyn o bryd ond mae modd ei gyflawni gyda gwelliannau)

3) Does dim ateb ar gyfer mynediad addas i'r safle.

**Casgliad yr adran yma:**

- Mae'n ymddangos bod y safle'n cydsynio â'r adran yma
- Mae angen ystyriaeth/gwybodaeth bellach ynghylch elfennau o'r adran yma
- Dyw hi ddim yn ymddangos bod y safle'n cwrdd â nodau'r adran yma

**Effaith tirwedd ac amgylcheddol –** P'un a yw'r safle'n destun dynodiadau Ewropeaidd, Cenedlaethol neu Leol, neu'n effeithio arnyn nhw, megis ond heb fod yn gyfyngedig i: Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC); Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI); Safleoedd Ramsar; Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNRs); dynodiadau lleol, anstatudol fel Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur arfaethedig (PSINC); Nodweddion/gwerth tirwedd fel lletemau gwyrdd ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig, asedau hanesyddol; safle maes glas/tir llwyd; system dosbarthiad tir amaethyddol (ALC) ac ansawdd aer. Sylwch, ar gyfer dynodiadau SINC, bydd y Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur arfaethedig fel sy'n ymddangos ar y map cyfyngiadau yn cael eu defnyddio i'w penderfynu. Bydd y map cynigion cyfredol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dynodiadau fel Lletemau Gwyrdd ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig.

**13. A yw'r safle o fewn dynodiad ecolegol Ewropeaidd, Cenedlaethol neu Leol, neu a oes modd iddo gael effaith bosibl ar ddynodiad o'r fath? (Yn amodol ar ymgynghori ag Ecoleg)**

1) Does dim dynodiad nac effeithiau anuniongyrchol (does dim byd ar y safle)
2) Mae'n bosibl bod modd lliniaru
3) Ydy a does dim modd lliniaru (mae'r safle mewn dynodiad a phenderfynwyd nad yw lliniaru yn bosibl, byddai niwed annerbyniol i nodwedd y dynodiad)

**14. A fyddai datblygiad ar y safle yn arwain at golli tir amaethyddol?**

1) Na (dyw e ddim yn dir amaethyddol)
2) Ydy ond o ansawdd isel neu'n cael ei ystyried yn dderbyniol (yn unol â'r canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru)
3) Ydy ac o ansawdd uchel (yn unol â'r canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru)

**15. A yw'r safle (neu rannau ohono) wedi'i warchod gan ddynodiadau tirwedd? (Lletem werdd, Ardal Tirwedd Arbennig?)**

1) Na (dyw'r safle ddim o fewn dynodiad tirwedd)
2) Mae angen rhagor o wybodaeth ac asesiad (mae'r safle mewn dynodiad tirwedd ond mae angen rhagor o wybodaeth am ei effaith -

dyma le rydyn ni'n gofyn am Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd ac Asesiad o'r Effaith Weledol), neu mae angen ailystyried y dynodiad.
3) Ydy, mae'n tanseilio'r effaith ar y dynodiad (byddai'r safle'n creu niwed annerbyniol/yn tanseilio'r dynodiad, h.y. yn creu cyfuniad o ddau anheddiad ac ati)

**16. A yw'r safle wedi'i warchod gan, yn cynnwys neu'n effeithio ar unrhyw ddynodiadau diwylliannol (ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig, tirwedd hanesyddol)?**

1) Na (does dim ased na dynodiad y byddai'r safle'n effeithio arno)
2) Mae angen rhagor o wybodaeth ac asesiad (efallai y bydd effaith ar yr ased hanesyddol - byddai angen astudiaeth)
3) Ydym bydd effaith yn tanseilio ar y dynodiad

**17. A oes risg bosibl o dir llygredig, treftadaeth cloddio am lo, neu ei fod o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer?**

1) Na
2) Mae angen rhagor o wybodaeth i ddarganfod y risg a'r mesurau lliniaru sy'n ofynnol (bydd angen adroddiad derbyniol ar lygriad tir neu ansawdd aer)
3) Oes - byddai'r safle'n peri risg annerbyniol i iechyd (lle mae iechyd y cyhoedd yn cadarnhau bod cyfyngiad llwyr)

**Casgliad yr adran yma:**

- Mae'n ymddangos bod y safle'n cydsynio â'r adran yma
- Mae angen ystyriaeth/gwybodaeth bellach ynghylch elfennau o'r adran yma
- Dyw hi ddim yn ymddangos bod y safle'n cwrdd â nodau'r adran yma

**Perygl Llifogydd**

**18. Ydy'r safle mewn parth perygl llifogydd?**

1) Na, dyw'r safle ddim mewn parth llifogydd (ddim o fewn unrhyw barth)
2) Mae'r safle mewn parth llifogydd ond mae'n bosibl bod modd lliniaru (mae'r defnydd o'r safle a/neu'r parth llifogydd yn golygu bod y Nodyn Cyngor Technegol yn caniatáu i Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA) sefydlu derbynioldeb - byddai angen FCA yn yr achos yma)
3) Ydy, Mae risg annerbyniol o lifogydd.

**Casgliad yr adran yma:**

- Mae'n ymddangos bod y safle'n cydsynio â'r adran yma
- Mae angen ystyriaeth/gwybodaeth bellach ynghylch elfennau o'r adran yma
- Dyw hi ddim yn ymddangos bod y safle'n cwrdd â nodau'r adran yma

**Ardaloedd diogelu mwynau/lleiniau clustogi**

**19. A yw'r safle wedi'i leoli o fewn ardal diogelu mwynau neu parth glustogi mwynau chwarel?**

1) Dyw'r safle ddim mewn parth diogelu mwynau
2) Mae'r safle mewn parth diogelu mwynau ond mae'r mwyn eisoes wedi'i sterileiddio (Mae'r mwyn eisoes yn rhy agos at ardaloedd datblygu neu ecolegol-sensitif eraill yn unol â'r diffiniad yn SG10 CDLl)
3) Mae'r safle mewn parth diogelu mwynau a byddai o bosibl yn sterileiddio'r mwyn/Mae'r safle o fewn llain glustogi chwarel. (Mae angen rhagor o wybodaeth am gyn-echdynnu).

**Casgliad yr adran yma:**

- Mae'n ymddangos bod y safle'n cydsynio â'r adran yma
- Mae angen ystyriaeth/gwybodaeth bellach ynghylch elfennau o'r adran yma
- Dyw hi ddim yn ymddangos bod y safle'n cwrdd â nodau'r adran yma

**Y Gallu i Gyflawni ac Addasrwydd**

**20. A yw'r safle'n edrych yn fras fod modd iddo gael ei ddatblygu, a'i fod yn wirioneddol addas ar gyfer ei ddatblygu?** Bydd y cwestiwn hwn yn chwarae rhan yn y gwaith o nodi pa dystiolaeth bellach sydd ei hangen i ganiatáu asesiad pellach o'r safle.

1) Mae'n ymddangos bod y safle yn cydsynio â'r asesiad cychwynnol
2) Mae angen ymchwiliad/gwybodaeth bellach i sefydlu a yw'r safle yn cydsynio â'r asesiad cychwynnol
3) Dyw hi ddim yn ymddangos bod y safle yn cydsynio â'r asesiad cychwynnol

**Casgliadau Cyffredinol Asesiad Cychwynnol y Safle Ymgeisiol**

1) **Mae'r safle'n parhau yn y broses**
2) **Mae angen gwybodaeth bellach**
3) **Tynnu'r safle o'r broses**

**Penderfynir ar yr Asesiad Cychwynnol ar ôl ystyried pob un o'r adrannau uchod. Gall safleoedd eu dynnu o'r broses asesu os na allant gyd-fynd â gofynion un neu fwy o'r adrannau.**

**Ystyriaeth i'w chynnwys ar y gronfa ddata;**

**Hanes cynllunio a chytundebau cyfreithiol –** Caniatâd cyfredol, unrhyw hanes o wrthod, ystyriaethau cyn ymgeisio, cyfamodau.